

ECO'r Wyddfa

Rhif: 487
Rhifyn Gaeaf 2020



Bwyd i Bawb

Mae cynllun newydd sbon wedi dechrau yn Llanrug a Chwm-y-glo sy'n dosbarthu bwyd dros ben o archfarchnadoedd i bobl sy'n hunan-ynysu, yn fregus neu wedi colli incwm oherwydd Covid 19.

Mae cynllun FareShare yn cymryd bwyd sydd ddim yn medru cael ei werthu ond sy'n gwbl ddiogel i'w fwyta, ac yn ei drosglwyddo i fudiadau neu gynlluniau cymunedol sydd wedyn yn rhannu'r bwyd mewn pecynnau neu fel standin.

Mae'n fwyd maethlon a safonol, ond mae o dros ben ac mewn peryg o fynd yn wastraff fel arall. Ers talwm mi fyddai'r bwyd cwbl fwydadwy yma wedi cael ei daflu, ac felly mae'r cynllun nid yn unig yn helpu pobl mewn angen ond mae hefyd yn gwneud cyfraniad amgylcheddol pwysig.

Dim ond ers mis mae'r cynllun wedi cychwyn, ond mae eisoes yn boblogaidd iawn gyda degau wedi ymuno.

Mae'r cynllun hwn yn esblygiad naturiol o'r cynllun 'Cinio Sul a Phecyn Bwyd' yn Llanrug a Chwm-y-glo drwy'r cyfnod clo. Y Cyngor Cymuned oedd yn gyfrifol bryd hynny, a'r Cyngor sy'n cyd-lynu'r cynllun FareShare hefyd.

Os ydych chi'n byw yn Llanrug neu Gwm-y-glo ag â diddordeb mewn ymuno â'r cynllun a chael pecyn o fwyd i'ch drws bob nos Wener, cysylltwch â clerc@llanrug.com i gofrestru.

Yn y rhifyn hwn

- **Hanes y Cwmp** tud. 25
- **Chweched Dosbarth Ysgol Brynrefail dan fygythiad** tud. 22
- **Cefnogi Busnesau Lleol dros y 'Dolig** tud. 23
- **Cwis chwaraeon**
- **Lansio llyfrau Glyn Tomos a Duncan Brown** tud. 23/24
- **Cystadleuaeth Hen Luniau 2020 Menter Fachwen** tud. 24
- **Newyddion pentrefi**



Chwilio am
Elin Enfyys

Mae 8 llun o Elin yr arth fach yn gwneud ystumiau gwahanol yn cuddio rhwng straeon rhifyn yma'r Eco. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

ECO'r Wyddfa

RHIF 487
Gaeaf 2020

Swyddogion a Gohebwyr
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55
3LU. 07798 552238. tonyelliott17@yahoo.co.uk

Golygydd Chwaraeon
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Golygydd yr Ifanc
Marged Rhys
marged_3@hotmail.co.uk

Ffotograffwr
Gwynhaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn,
Llanrug. 01286 672221.
glasgoed@hotmail.co.uk

Trefnydd Hysbysebion
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286
673838

Trefnydd Ariannol
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

Trefnydd Gwerthiant Post
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

Trefnydd Bwmdel
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

Trefnydd Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

Gohebwyr Pentrefi

Bethel:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Brynrefail:
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286
870580. lowri-prys@supanet.com

Caeathro:
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

Deiniolen:
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286
870394. glyn.gruffudd@btinternet.com

Dinorwig:
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

Llanberis:
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286
675384. eifionroberts132@btinternet.com

Llanrug:
Eynl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

Nant Peris:
Kate Pritchard
01286 675384. econantperis@hotmail.co.uk

Penisarwaun:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Waunfawr:
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr,
Mae'n bleser cael cyhoeddi y bydd yr Eco ar gael ar ffurf papur gyda rhifyn y Nadolig 2020. Mae rhestr o'r siopau sy'n ei werthu i'w weld yn y llun, a diolch iddynt.

SYLWCH; I'r rhai ohonoch chi sydd eisoes wedi talu am flwyddyn, bydd eich blwyddyn yn cychwyn gyda rhifyn EBRILL 2021. BYDD ANGEN PRYNU COPI MEWN SIOP RHWNG Y NADOLIG A MIS MAWRTH.

Diolch i chi am eich cefnogaeth i'r Eco.

Cyfarchion y Tymor i bawb!

Tony Elliott,
Cadeirydd Pwyllgor Gwaith
Eco'r Wyddfa



browyddfa360

Gohebwyr Ifanc Bro Wyddfa 360

Fel rhan o gynllun gwefannau Bro360 mae Golwg yn rhoi cyfle i 15 o unigolion ifanc i ddatblygu eu sgiliau gohebu a chyfrannu i'r 7 gwefan fro. Cafodd tri pherson brwdfrydig o ardal yr Eco eu derbyn i gyfrannu, sef Aled Pritchard, Nel Pennant Jones a Gwernan Brooks.

Ar y cwrs 5 wythnos cafodd y tri'r cyfle i ddysgu gan ohebwyr profiadol gan gynnwys Dylan Iorwerth, Garmon Ceiro, y ffotograffydd Betsan Haf a mwy mewn sesiynau dros Zoom.

Yn ôl Aled: "Roedd y cwrs yn grêt! Mae'n gyffrous gweld cyrsiau fel 'ma yn cael eu cynnal, gan fod nhw'n gyfle i glywed gan bobl sydd â chyfoeth o brofiadau a chynghor i'w rannu. Roedd derbyn adborth ar fy ngwaith gan Dylan Iorwerth fyrryn yn rhyfedd, ond fe fuodd y cynghor yn gymorth mawr i mi."

Yn ôl Nel: "Roedd yn brofiad gwych cael dysgu am y byd newyddiaduraeth. 'Nes i wir fwynhau ysgrifennu a dysgu lot o'r cwrs. Mae'r cwrs wedi 'neud i mi ystyried parhau gwneud hyn yn y dyfodol"

Dyma bigion o'u gwaith:

'Cyffro ailddechrau band wedi Cofid dawelu Deiniolen' - gan Nel Penant Jones

"Fyddai rhywun ddim yn disgwyl i ddyn gynhyrfu cyn ymarfer band ac yntau'n aelod ers 63 mlynedd, ond cyn mynd i un diweddar fe gollodd Dafydd 'Twins' wythnos o gwsq.

Y rheswm dros y cynnwrf oedd mai dyma'r tro cyntaf i'r seindorf ddod at ei gilydd ers chwe mis oherwydd y cyfnod clo. Mae'r band yn ganolog i fywyd Dafydd ac roedd wedi gweld eisau'r band yn arw dros y misoedd o fod yn gaeth i'r tŷ.

Teimlodd Dafydd wacter yn ei fywyd wrth i'r ymarferion wythnosol ddod i ben fis Mawrth. Roedd wedi mynychu ymarferion band Deiniolen yn rheolaidd ers yn 10 mlwydd oed, a dywedodd fod y cyfnod diweddar wedi bod yn un "torcalonnus" ac roedd wedi teimlo'n unig heb gwmni'iaeth cymuned y band...."

Erthyglau diweddar eraill BroWyddfa360:

- 'Coleg neu Chweched Dosbarth?' Trafod profiadau myfyrwyr
- 'Pegiau Pert' Hanes creu busnes lleol yn ystod y clo
- Cyfweiliad â Dr Esyllt Llwyd
- 'Cynigion Ail-Strwythuro Prifysgol Bangor yn pryderu myfyrwyr Cymraeg'

Ewch i www.browyddfa.360.cymru i ddarllen mwy!

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£50 - Iwan a Gwenda Roberts er cof am Dafydd Huws, Caerdydd (Rhes y Faenol, Llanberis gynt)

£20 - Elizabeth Evans, Pen Parc, Bethel

£20 - Eirian Mali

£20 - Er cof am Alun Roberts, 4 Ffordd Padarn, Llanberis.

Annwyl Ddarllenwyr

Ar ran Panel Golygyddol Eco'r Wyddfa hoffem ddiolch yn ddiffuant i'r holl weithwyr allweddol sydd wedi'n cynnal ni drwy fisoedd hir a thywyll Covid-19 yn 2020. Bu'r aflwydd yn gysgod dros ein bywydau ni i gyd eleni, ond rydym yn parchu a gwerthfawrogi holl waith caled y 'gweithwyr allweddol' - staff gwasanaethau iechyd lleol, athrawon, glanhawyr, gweithwyr siopau bwyd neu garej, gyrwyr trafniadaeth gyhoeddus, y Gwasanaeth Post, gweithwyr elusennau, ymgymerwyr, ffermwyr, heddlu a'r gwasanaeth tân, gweithwyr casglu gwastraff, a llawer llawer mwy. Gwyddom hefyd pa mor bwysig bu cymdogion, teulu, ffrindiau a gwirfoddolwyr o bob math fu'n cefnogi aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas, yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Dyma groesi bysedd y bydd y flwyddyn newydd - 2021-yn flwyddyn newydd well. Dichon y byddwn yn parhau i fod angen cymorth ein 'gweithwyr allweddol', ond gobeithiwn y bydd eu gwaith yn lleihau wrth i ni symud ymlaen i gyfeiriad 'normal newydd'.

Gan fawr obeithio y daw haul ar fryn yn fuan.



Parhad LLYTHYRAU

Annwyl Ddarllenwyr,

Fel y gwyddoch, mae Urdd Gobaith Cymru yn wynebu sefyllfa argyfyngus o ganlyniad i bandemig Covid-19, ac mae dyfodol y mudiad yn fregus.

Mae'r Urdd yn fudiad unigryw sydd, ers 1922, wedi cyflawni llawer wrth gynnig profiadau Chwaraeon, Ieuencid, Celfyddydol, Preswyl, Prentisiaethau, Dyngarol a Gwirfoddoli i fwy na phedair miliwn o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro wedi galluogi'r bobl ifanc hynny i gyfrannu'n bositif i'w cymunedau, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder. Rydym wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i ymfalchïo yn eu gwlad, eu hiaith a'u diwylliant, gan eu galluogi hefyd i fod yn ymwybodol o werthoedd y byd ehangach.

Ond, wrth i'r mudiad wynebu colledion ariannol am nad oes modd cynnal ei wersylloedd ac am fod cyfyngiadau enfawr ar ei wasanaethau cymunedol, rhagwelir toriadau incwm o £14 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf a dyled sylweddol, o leiaf £3.5miliwn. A gall y ffigyrau hyn gynyddu wrth i'r argyfwng Covid-19 barhau. Mae'r mudiad hefyd wedi colli hanner ei weithlu o 320 o bobl o ganlyniad i'r toriadau, ac mae'r her yn un na wynebodd y mudiad ei thebyg o'r blaen.

Rydym wedi bod yn agored a gonest o'r cychwyn ynglŷn â'n pryderon am y dyfodol. Rydym hefyd yn trafod yn gyson gyda'n rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru, ac yn ddiolchgar am y cyllid argyfwng tymor byr a dderbyniwyd hyd yma.

Ond, mae'r her ariannol yn enfawr, fel yr ydym wedi bod yn ategu mewn sgysiau a chyfweliadau ar y cyfryngau. O ganlyniad, mae llawer wedi bod yn holi sut y gallant ein helpu trwy'r cyfnod anodd hwn, er mwyn sicrhau dyfodol i brif fudiad plant a phobl ifanc Cymru. Mae unrhyw gyfraniad, bach neu fawr, yn hynod bwysig i ni ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Felly hoffem rannu gyda'ch darllenwyr yr amrywiol ffyrdd o gefnogi:



- **Plant a phobl Ifanc:** Os ydych o dan 26, yna ymaelodi yw'r ffordd orau o gefnogi. Am ddim ond £9 am flwyddyn, neu £25 am aelodaeth teulu, cewch fanteisio ar yr ystod o weithgareddau sydd ar gael, gan gynnwys arlwy digidol amrywiol a chynhwysfawr.

- **Oedolion:** Mae ffordd hawdd o gyfrannu trwy'r wefan (urdd.cymru), neu gallwch anfon cyfraniad trwy siec. Byddem yn hynod ddiolchgar petaech yn ei gwneud yn daladwy i Urdd Gobaith Cymru a'i hanfon at:

Iwan Tudur Jones

Adran Gyllid Urdd Gobaith Cymru

Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn

Llanuwchllyn

Y Bala

Gwynedd

LL23 7ST

Am bob cyfraniad o fwy nag £20, byddwn yn anfon bathodyn arbennig aelodaeth yr Urdd 20-21 fel cydnabyddiaeth, felly cofiwch gynnwys eich cyfeiriad.

Ein haelodau yw ein blaenoriaeth bob amser; a byddwn yn parhau i weithredu o fewn ein gallu i sicrhau cyfleoedd amrywiol, cyfoethog a chyfoes i blant a phobl ifanc Cymru.

Ymhen dwy flynedd, bydd yr Urdd yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed. Rydym yn hyderus y gallwn, gyda help ein cefnogwyr a'r holl ewyllys da sydd tuag at y mudiad arbennig hwn, oroesi'r cyfnod anodd hwn ac ail-adeiladu'r mudiad ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Gan ddiolch o waelod calon am yr holl gefnogaeth.

Siân Lewis

Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru

Yn ystod y misoedd aeth heibio...

- Donald Trump yn cael ei brofi'n bositif efo Covid19; y tro cyntaf iddo fod yn bositif ers ei ethol bedair blynedd yn ôl. Yna'n honni ei fod wedi ennill yr Etholiad am dymor arall o bedair blynedd, er fod pawb arall yn gwybod ei fod wedi colli.

- Gwerthiant cerddoriaeth yn cyrraedd crescendo gan gynnwys gwersi piano ar-lein. Presto Music, un o'r cwmnïau mwyaf sy'n delio mewn cerdd yn datgan fod gwerthiant wedi cynyddu 25% rhwng Ebrill a Medi. Gwerthiant llyfrau ac aelodaeth llyfrgelloedd wedi cynyddu hefyd.

- Ieir bach yr haf yn dianc i'r Alban am fod hafau de Prydain yn rhy boeth.

- Medi oedd y mis poethaf erioed ers dechrau cadw cofnodion.

- Dr Rudolfo Piskorski o Brasil, sy'n ddarlithydd ieithoedd ym Mhrifysgol Caerdydd, yw'r person cyntaf erioed i lwyddo mewn prawf dinasyddiaeth Prydeinig trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Arolwg gwyddonol yn dangos fod sustem imiwnedd plant yn gwella o fewn mis i'w hardaloedd chwarae gael eu symud oddi ar wyneb caled i dir coediog.

- Arolwg arall yn dangos fod nofio mewn dwr oer yn gymorth i gadw draw dementia a rhai afiechydon eraill.

- Arolwg arall eto'n dangos fod yfed 4 paned o dê gwyrdd a 2 baned o goffi yn ddyddiol yn lleihau risg marw'n gynnar gan rai'n dioddef o glefyd siwgr.

- Cyflog dyddiol o £7,360 yw tâl nifer o ymgynghorwyr sy'n cynnal rhaglen profi ac olrhain y sector breifat, ac arolwg diweddar gan y BBC yn dangos ei bod yn methu.

- Arbrawf o osod sglodion micro ar gefnau gwylanod i gofnodi eu symudiadau yn dangos eu bod yn dueddol o gasglu at ei gilydd ble bynnag mae pobl yn cael bwyd – ond roedd pawb yn gwybod hynny'n barod!

- Rhywbeth i edrych ymlaen amdano? Yn 2022 bydd pawb yn cael pedwar diwrnod o wyliau i ddathlu teyrnasiad y frenhines am 70 mlynedd. Gwerthiant Jac yr Undeb yn debygol o gynyddu, ond nid yn yr Alban na Chymru.

- Banc Hadau'r Mileniwm yn dathlu ei ben-blwydd yn ugain oed, a bellach yn gartref i 2.4 miliwn o hadau blodau a phlanhigion. Mae'r 'Arch Noa Blanhigion' yn bolisi yswiriant ar gyfer yr holl blanhigion prin sydd dan fygythiad ...

- ... ac y mae rhaglen deledu'r BBC 'Countryfile' yn lansio ymgyrch i blannu 750.000 o goed dros y ddwy flynedd nesaf.

**cymorth
cristnogol**

Urddas. Cydraddoldeb. Cyflawnder. Cariad.
106 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd,
LL57 1NS, Cymru

BETHEL

Ymddeoliad

Dyna fu hanes Staff Nyrs Ann Parry, Stad y Rhôs yn ddiweddar wedi cyfraniad hir oes. Dros y 33 blwyddyn olaf bu ar staff Ysbyty Eryri, Caernarfon. Dymunwn yn dda iddi hi a Geraint wedi cyfnod mor hir o wasanaeth.

I Ann

I Ann rhoed gyrfa hynod, – aeth i'w gwaith,
aeth â'i gwên pob diwrnod.
Nid gorchwyl galwad gwarchod,
y mae'r baich ym mêr ei bod.

Wastad hyd y ward ddistaw – nos a dydd
rhoes o'i dawn yn hylaw.
I'w thîm rhoi'r graen oedd flaenllaw,
caed mantais o'i llais a'i llaw.

Daw y braw ar ddyddiau braf, – ni wn pryd,
hwn yw y prawf eithaf.
Awr oer, glos – cysur i glaf
hi'n 'deulu', y ffrind olaf.

Rhyw awr, oriau Eryri – ddaw i gof,
dydd gofid, sawl stori.

Ar goedd, iawn yw cyhoeddi –
gwir yw, caed o'i gorau hi.

Richard Lloyd Jones



CAEATHRO

Capel: Yn sgil yr amgylchiadau presennol a chyfyngiadau COVID-19, ni fydd ein Gwasanaeth Nadolig traddodiadol yn cael ei gynnal yng Nghanolfan y Capel y flwyddyn hon. Fodd bynnag, bydd Gwasanaeth bychan yn cael ei arwain gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson i Aelodau a gwrandawyr yr Eglwys ar ddydd Sul yr 20fed o Ragfyr am 5:30pm. Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, bydd niiferoedd yn gyfyngedig i ddim mwy na 30. Er mwyn sicrhau eich lle, cysylltwch gydag un o'r Swyddogion.

Cymdeithas Cae Chwarae: Diolch yn fawr i griw y Gymdeithas am osod y goeden Nadolig hyfryd yng nghanol y pentref eto eleni. Ni fydd Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro yn trefnu unrhyw ddigwyddiad cymunedol eleni oherwydd amgylchiadau COVID-19.

Penblwyddi Arbennig: Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn un prysur o ran penblwyddi 18 yng Nghaeathro - llongyfarchiadau i Mia (Tŷ Coco), Siôn (Fron Deg), Martha (Erw Wen) a dathliad dwbl yng Nghefn Gof i Malan ac Erin!

Carem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r cyffiniau. Diolch hefyd i bawb am eu holl ymdrechion i warchod ein gilydd a chadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod o ansicrwydd yma.

Perthyn

Ydy, mae'r bwyty ar safle Y Bedol wedi ennill ei blwyf bellach. Mae ymateb da – yn lleol a thu hwnt – i'r man cyfarfod hwn a'r croeso hwyliog Cymreig yn eich taro ar fynediad. Ar hyn o bryd mae'r bwyty ar agor ar ddydd lau, Gwener a Sadwrn, yn darparu brecwast a byrbrydau, yn ogystal a dewis da o goffi a chacennau. Wedi'r Nadolig mae'n fwriad gan Nia a'i chwaer Elen i ymestyn ac agor am ddiwrnod ychwanegol yn ystod yr wythnos. Cadwch olwg am y datblygiadau. Y mae'r syniad o gyrchfan i ardalywyr gael cyfarfod am sgwrs – yn enwedig yn y cyfnod anodd diweddaraf yma – yn greiddiol i feddylfryd y perchnogion. Braf hefyd yw gweld ieuenctid y pentref yn mynychu.

Braf nodi hefyd bydd yr Eco ar werth yn Perthyn hefyd. Felly, os oeddech yn arfer prynu'r Eco yn y Post, gallwch ei gael yn Perthyn bellach. Beth well, na darllen yr Eco yn boeth o'r wasg a choffi wrth eich hymyl.



Atebion

1. Cei Connah
2. Dartiau. Daeth yn Bencampwr Byd yn y gylchdaith BDO
3. Tyson Fury
4. Kansas City Chiefs
5. Al Boum Photo
6. Saith
7. Alun Wyn Jones
8. Sophie Ingle
9. Grand National
10. Bayern Munich
11. Gerwyn Price a Jonny Clayton
12. St Helens
13. Neville Southall
14. Dustin Johnson
15. Neco Williams
16. Tokyo
17. Elfyn Evans
18. Slofenia
19. Stuart Board
20. Chwech

HUW OWEN

PLASTRWR ADEILADWR LLEOL

23 BLWYDDYN O BROFIAD

Ffôn - 01286 677668
Symudol - 07940023159

Gladwyn,
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4AG

Ebost - lisa.huw@btinternet.com

Parhad BETHEL



Sioe Nadolig yr Ysgol

A minnau yn ysgrifennu'r truth yma, roedd y disgyblion yn brysur yn ffilmio'r Sioe Nadolig. Torri tir newydd a phrofiad ddiamheuol iddynt. Bydd cryn edrych ymlaen. Er mwyn gweld y sioe bydd pob un rhiant a llywodraethwr yn derbyn linc i wyllo y perfformiad ar lein. Efallai y dangosir rhannau byr

ar Facebook. Ni fydd neb yn gallu mynd ar YouTube i wyllo. Gwelir dau ddarlun o'r sioe i aros pryd. Os oes unrhyw un eisau prynu DVD o'r sioe gellir ei gael o'r ysgol am daliad o £5. Gofynnir i chwi dalu drwy ddull Gateway.

Derbyniad

Bu'r ysgol yn hynod falch o dderbyn un o gadeiriau eisteddfodol y Prifardd Selwyn Griffith. Roedd gan Selwyn dipyn o feddwl o'i hen ysgol a gobeithio bydd y gadair yn symbyliad i'r plant yn agweddau ysgrifennu creadigol y maes llafur. Mae dawn llenyddol nifer o'r disgyblion wedi ei arddangos yn Eisteddfod Bethel dros y blynyddoedd.



CEIR CYMIURU



Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Gwaith Coffaol LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898



Parhad BETHEL

Mae'r frwydr yn parhau

Ie, mae'r feirws a'i 'ofid' yma o hyd. Mae wedi bod yn gyfnod anodd, anghymdeithasol, ac rydym wedi gweld eisiau sawl agwedd o fywyd pentrefol. Braf oedd gweld yn yr amryw restrau fod yr ardal yma wedi dilyn y canllawiau/gofynion gyda'r nifer a ddaliodd y feirws yn gymharol fychan. Diolch i chwi i gyd am eich hymdrechion a'ch dyfalbarhad. Yn amlwg bydd Gŵyl y Geni yn wahanol iawn eleni, ond gobeithiwn ein bod yn gweld gwir werth yr Ŵyl ar bob aelwyd, y tu hwnt i'r gorwario a gorloddesta.

Yn sicr eleni, gellir dweud mae'r anrheg gorau i bob un ohonom yw iechyd. Gallaf ddychmygu rhai yn cyfeirio at Nadolig 'ers talwm'. Braf fuasai gweld ail-fyw yr olygfa ychydig flynyddoedd yn ôl pan gawsom eira dydd Nadolig. Hyfryd oedd gweld teuluoedd gyda'i gilydd yn cerdded hyd lôn Tre Gôf yn oer o iach. Yn anffodus ni chynhelir yr Oedfa Gymun Undebol bore'r Ŵyl yn y Cysegr, ond gadewch i ni gyd yn ein ffordd ein hunain blygu pen a chofio'r byd a'i holl flinderau a'n gobaith o weld unwaith eto 'haul ar fryn'.

Derbyn yr Eco

Rwy'n siwr eich bod i gyd yn falch o dderbyn y rhifyn 'papur' yn ei ôl. Hefyd, y cynnydd sylweddol yn y darluniau lliw sydd erbyn hyn yn ymddangos ar bob tudalen. Dyma y rhifyn 'papur' cyntaf o dan y criw golygyddol newydd ac wrth eu croesawu dymunwn hir oes iddynt, ac efallai gosod eu stamp a'u gweledigaeth eu hunain ar y cynnwys. Rwy'n hyderus y bydd y dosbarthwyr yn danfon y rhifynau i'r drws fel arfer. Hefyd rwy'n gobeithio y bydd modd gosod rhai rhifynnau yng Nghaffi Perthyn, fel bod y rhai oedd yn prynu eu copi yn y post yn cael cyfle i ddal i brynnu yn lleol, ynghyd ag unrhyw ddarllenwyr newydd.

Yn anffodus, bu'n rhaid gwneud un newid ariannol – na, nid yw'r pris yn codi! Gan fod rhai darllenwyr bro'r Eco eisioes wedi talu am y flwyddyn i ddod, a rhai pentrefi heb, barn y Bwrdd Rheoli oedd dechrau'r flwyddyn i bawb gyda rhifyn mis Ebrill 2021. Felly, i chwi bobl dda Bethel a'r cylch sydd eisioes wedi talu, gofynnwn i chwi dalu y £1 y rhifyn am y tri rhifyn nesaf ac yna bydd eich blwyddyn di-dâl yn ymestyn o Ebrill 2021 i Ebrill 2022.

Fe sylwch, er y diffyg cymdeithasu, fod cryn dipyn i'w gofnodi a thrafod yn ein ardal fach ni. Fel y dywedais droeon, eich papur chwi yw'r Eco. Peidiwch ag eistedd ar stori – yn ddwys neu ddigri – danfonwch y manylion i mi a chânt weld golau dydd.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Yn amlwg, gyda'r diffyg gweithgareddau bu'r nifer ceisiadau am roddion yn llai o dipyn eleni. Dyfarnwyd arian i'r sawl a wnaeth gais. Mae'r amodau 'rhoi' yn gaeth iawn bellach, a rhaid pwysleisio na ellir rhoddi 'cyfraniad' os na cheir MANTOLEN GYFREDOL a honno wedi ei ARCHWILIO/ARWYDDO gan berson dilys. Yn y dyfodol bydd angen cynnwys y côd banc priodol gyda'r cais hefyd.

I ardal Bethel eleni rhoddwyd:

Clwb Pêl-droed Ieuenctid £300

Clwb Snwcer Bethel £100

Clwb Bowlio Dan-Do Bethel £100

Cofiwch y Sedd Wag. Bethel yw'r unig bentref heb ei chwota llawn o gynghorwyr bellach.

Y mae'r Cyngor wedi sefydlu Is-Bwyllgor Llwybrau, gan fod gwarchodaeth y llwybrau yn rhan statudol o waith y cyngor. Da o beth yw hyn, oherwydd yn y dyddiau sydd ohoni, gallwn weld tipyn o gostau, ac felly yn dylanwadu ar y praesept ac hefyd

cynllunio ymlaen y cyngor dros y dair blynedd nesaf. Bydd y praesept yn cael ei osod yn y cyngor nesaf ddechrau Ionawr. Yn amlwg bydd rhaid blaenoriaethu a didoli'r llwybrau gan nodi amllder y defnydd ac hefyd prif nodwedd y llwybr bellach – llwybr cyswllt, llwybr hamdden (cerdded) ac hefyd ambell i lwybr hanesyddol yn y plwyf. Y Cyng. Jane Pierce fydd ein cynrychiolydd lleol ar yr Is-bwyllgor.

Bydd Hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned yn cael ei osod ym mhob pentref yn y dyfodol agos.

Yr ydym yn ddiolchgar i'r Cyng. Gareth Griffiths am gytuno i ymestyn ei Gadaeryddiaeth o'r Cyngor am flwyddyn arall i'n hwyluso o ran trefniadaeth yn ystod y cyfnod anodd yma. Y mae'r cyngor yn ddiamheuol wedi elwa o arweiniad cadarn a chyson Gareth.

Cyfarchion Nadolig

Dymuna Elizabeth Evans, Pen Parc, ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i'w theulu a ffrindiau gan na fydd yn anfon cardiau eleni. Bydd yn gwneud cyfraniad at goffrau y Banc Bwyd yng Nghaernarfon. (Diolch iddi hefyd am gyfraniad ariannol i'r Eco.)

Hoffai ddiolch hefyd i'w phlant a'i ffrindiau ffyddlon am eu cefnogaeth triw dros gyfnod pryderus ym mis Mai. Diolch arbennig i staff diflino Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi am eu gofal dros gyfnod anodd.

Colled

Dyma ein cyfle cyntaf yn yr Eco i gydymdeimlo â theulu'r diweddar John Williams (John Becar), Ty'n Llidiart, Seion. Dyn ei filltir sgwâr a'i wreiddiau yn ddwfn yn Neiniolen ac yn ôl i'r topia y dychwelodd i orffwys. Dyn poblogaidd iawn, agos atoch, parod ei gymwynas. Rhoi torth ar fwrdd liw dydd ac yna y bwrdd snwcer fyddai'n denu. Yr oedd yn ddipyn o giamstar

yn y gamp, ac enillodd sawl tlws yn y cynghreiriau lleol. Yr oedd gweld trigolion Seion yn sefyll yn ddistaw i ffarwelio â John o Dy'n Llidiart am y tro olaf yn adrodd cyfrolau. Cydymdeimlwn â'i weddw Megan sydd yng Nghartref Cerrig yr Afon bellach. Yr un modd i'r dair ferch, Eleri, Eira ac Einir a'r wyres Ceri, draw yng Nghaerdydd.

Ein cyfarchion hefyd i Gwenda Hughes draw yng Nghartref Willow Hall yng Nghaernarfon.

Llongyfarchiadau

I Jen Roberts, Stad y Ddôl ar ddod yn nain unwaith eto. Llongyfarchiadau gwresog i'w merch Ceri a'i gŵr Sam Garrod draw yn Llanddulas ger Bae Colwyn ar enedigaeth mab. A pha well enw i hogyn na Morgan Michael. Ia, M ac M's bydd hwn gobeithio – mor gynnes a siocled ar y tu allan ac mor iach a chneuen tu fewn.

Capel y Cysegr

Nid oes bwriad ail agor Capel y Cysegr ar gyfer Gwasanaethau Sabothol tan o leiaf mis Chwefror, 2021. Fel canlyniad ni fydd y Gwasanaethau arferol dros y Nadolig yn cael eu cynnal. Serch hynny, dymuna'r Gweinidog a'r Swyddogion ddymuno Tangnefedd a Llawnydd yr Ŵyl i'r aelodau a'r gymuned ehangach, ac yn naturiol dymuno Blwyddyn Newydd well i chwi gyd.

Un digwyddiad i godi ein calonau. Mae'n fwriad gan athrawon a phlant yr Ysgol Sul gyflwyno rhaglen Nadoligaidd rithiol. Mae plant Bethel yn hen lawiau ar y dull yma o gyflwyno bellach. Yn anffodus, ni ellid cyhoeddi yr union gyswllt parthed gwyllo'r cynhyrchiad ar hyn o bryd ond bydd ar gael o Ragfyr 20ed ymlaen. Bydd yr wybodaeth wedi ei rannu yn sicr. Edrychwn ymlaen i'r hen, hen stori mewn gwisg gyfoes.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.fframia.com



GERAINT OWEN
CARPEDI
Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

A young person is shown from the waist up, wearing a blue jacket, a white helmet with a red logo, and a life preserver. They are holding a paddle and are in a black kayak, navigating through white water rapids. The background is a rocky riverbank.



Ym mis Hydref gwnaethom y trefniadau arfeol i ddathlu diwrnod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn yr ysgol, gyda'r holl ddisgyblion yn gwisgo coch. Codwyd swm teilwng iawn o £457.23 ar gyfer yr achos hwnnw.



Yn ychwanegol at hyn mae

Diolch i'r staff a'r disgyblion i gyd am fod mor barod i barhau i godi arian a chyfrannu at achosion da ar adeg hynod o anodd i bawb.

Dathlu Doniau'r Dolig!

- Ffansi gwneud rhywbeth i godi calon?
- Oes gennych dalent i'w rhannu efo'r byd a'r betws?
- Beth am anfon fideo ohonoch yn perfformio ar gyfer ein CYNGERDD NADOLIG RHITHIOL?
- Canu, actio, llefaru, chwarae offeryn, dawnsio – dewiswch chi!
- Rhowch eich fideo yn Google Classroom erbyn RHAGFYR 7fed!

Dolen i'r cwrs :

<https://classroom.google.com/c/MjU0OTUyMkE4QzNDNTU1TjZlcm91?hl=en>

Côd y cwrs : g27o3oj

Banc Bwyd Ysgol Brynrefail

Mwy na' erioed mae'n
bwysig rhoi i bobl llai
ffodus felly mi fydd yr
ysgol yn creu casgliad



Tiniau o ravioli, cyri, cwstard, sbageti bo-





DEINIOLEN

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch

Roedd yn flwyddyn hynod o dawel i'r ŵyl ers ei sefydlu dros 10 mlynedd yn ôl, am resymau amlwg. Er hynny, fe lwyddwyd i gynnal gwasanaeth Sul y Cofio bychan yn unol â'r canllawiau perthnasol, a braf oedd gallu parhau i dalu teyrnged i ddynion ifanc y pentref a gollodd eu bywydau yn y rhyfel mawr a'r ail ryfel byd.

Mae'r golau nadolig wedi cael eu rhoi ymlaen eto eleni, yn dawel bach tro 'ma heb y gweithgareddau arferol, ond mae'n braf eu gweld ac yn codi calon. Wnaeth rhaglen deledu Heno ddarlledu stori am y golau, a da oedd gweld plant ac oedolion yr ardal yn sgwrsio gyda'r cyflwynydd.

Hoffai'r pwyllgor ddymuno Nadolig llawen i bawb o ddarllenwyr yr Eco a thrigolion yr ardal, a gobeithio y cawn ail afael yn y gweithgareddau yn y flwyddyn newydd.

Profedigaeth

Estynwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Mrs Nansi Morris 93 Pentre Helen a fu farw'n ddiweddar yn 91 oed, mi fydd colled mawr i chi gyd fel teulu.

Hunangofiant

Braf gweld bod un o fechgyn yr ardal sef Glyn Tomos wedi mynd ati i gyhoeddi hunangofiant, ac er mai hogyn o Ddinorwig ydi o mae'n adnabyddus i bawb o'r ardal dwi'n siwr. 'Deffro i Fore Gwahanol' ydi enw'r llyfr ac ar gael dwi'n siwr yn eich siopau llyfrau lleol.

Neges gan y Cynghorydd Elfed Williams

Dymuna'r cynghorydd ddiolch am yr holl gefnogaeth a dderbyniodd yn ystod y flwyddyn, a diolch i bawb a fu wrthi'n cefnogi'r gymuned a'i thrigolion yn ystod y flwyddyn anodd olaf. Nadolig Llawen i bawb a Blwyddyn Newydd Dda.

Neges Nadolig

Dyma flwyddyn anodd a hynod o anarferol bron a dod i ben, a dwi'n siwr y byddwn yn deud diolch byth am hynny. Er gwaethaf y newid byd a'r holl drafferthion y mae wedi'i olygu, mae wedi bod yn braf gweld y gymuned yn dod at ei gilydd a chefnogi trigolion yr ardal. Mae wedi bod yn dda gweld tudalen Deiniolen ddoe a heddiw yn ffynnu ar Facebook er enghraifft gyda nifer o luniau a hanesion difyr yn cael eu rhannu. Nid yw'n bosibl diolch i bob un a fu'n cynnig help yn ystod y misoedd olaf, ond i'r rhai a fu'n nôl negas i eraill, nôl tabledi o'r lle doctor, creu neidr garreg, cynnal bingo awyr agored a phob dim arall a wnaed, diolch o galon i chi gyd am bob dim. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd well i chi i gyd.

CWM-Y-GLO

Cyfarchion

Gan na fydd yn anfon cardiau eleni a chyfrannu i elusen, dymuna Dorothy Jones, Fron Gader anfon cyfarchion i'r oll o'r teulu, ffrindiau a chymdogion. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

Cyfarchion Nadolig

Gan na fyddaf fi, Hilda Orritt, yn anfon cardiau Nadolig eleni, rwyf yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm teulu, ffrindiau a chymdogion.

NADOLIG LLAWEN

A Blwyddyn Newydd DDA

I holl ddarllenwyr ECO'R WYDDFA
oddiwrth PAWB yn

GAREJ ARFON

DEINIOLEN

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Ffôn - (01286) 872304

LLANBERIS

Cais Am Newyddion

Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl, i'w gynnwys o dan Llanberis yn yr Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn / ebost neu alwad personol, yn y cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis. Diolch yn fawr.

Cais Am Ddosbarthwyr

Oherwydd fod nifer o ddosbarthwyr yr Eco yn ardal Llanberis a Nant Peris am roi'r gorau i'r gwaith, buaswn yn falch petai unrhyw ddarllenwr, neu ddarllenwraig, yn fodlon ymgymeryd â'r gwaith o ddechrau 2021. Os medrwch ein cynorthwyo, neu os ydych angen mwy o wybodaeth, cysylltwch â mi, Eifion Roberts, ar 01286 870740. Diolch o galon i'r rhai a fu, a sydd, yn dosbarthu.

Diolch

Hoffai teulu'r diweddar Alun Roberts ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth ac am yr holl roddion hael er cof am Alun. Rhoddwyd cyfraniad tuag at Uned Ddydd Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Cyfarchion Nadolig

Dymuna Ann Roberts, 4 Ffordd Padarn, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Eglwys Sant Padarn

Dydd Iau, 24 Rhagfyr, Noswyl y Nadolig am 2 o'r gloch: Gwasanaeth y Crud. Gwasanaeth ar gyfer y teulu; pawb i wisgo mewn siwmpwr Nadolig. Oherwydd cyfyngiadau Cofid-19 bydd angen i bawb wisgo masgiau, cadw pellter cymdeithasol a defnyddio'r glanhawr llaw.

Dydd Nadolig am 10 o'r gloch y bore: Yr Offeren.

Eglwys Sant Peris

Dydd Iau, 24 Rhagfyr, Noswyl y Nadolig am 11:30 yr hwyr: Yr Offeren. Gan fod rhaid cyfyngu ar y niferoedd, bydd rhaid cysylltu â Helen Wilcox ar 01286 872281 neu helenwilcox55@gmail.com er mwyn sicrhau lle os gwelwch yn dda.

Capel Coch

Bydd Oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch ddydd Sul, Rhagfyr 20. Wedi hynny, bydd yr oedfa nesaf am 10.00 o'r gloch fore Sul, Ionawr 10, 2021.

Ers i'r oedfaon ail ddechrau yn y Capel ym mis Medi, cynhaliwyd oedfa bob pythefnos dan arweiniad y Gweinidog. Yn ogystal, cynhelir Oedfa'r Ofalaeth (Gofalaeth Fro'r Llechen Las) trwy gyfrwng Zoom bob nos Sul am 5.00 o'r gloch, ac mae'r Gweinidog yn cynnal oedfaon yn gyson ar Youtube ar sianel Capel Tanycoed.

Gwaetha'r modd, ni fu'n bosibl hyd yma i ni ail ddechrau'r gweithgareddau eraill, yn cynnwys yr Ysgol Sul a CIC a'r Clwb Plant. Ond mae'r Ysgol Sul wedi cyfarfod trwy gyfrwng Zoom bob Sul (ar wahân i'r gwyliau ysgol) ers dechrau Ebrill, a bydd yn parhau felly i'r flwyddyn newydd.

Ond byddwn yn cynnal gweithgaredd Nadolig i'r Ysgol Sul yn Gilfach Ddu ddydd Sul, Rhagfyr 20 pan geir helfa drysor 'Cod QR' i gyflwyno stori'r Nadolig, ac ymweliad gan Sion Corn. Caiff rhieni'r Ysgol Sul y manylion trwy'r grŵp WhatsApp. Bydd Gwasanaeth Dydd Nadolig trwy gyfrwng Zoom.

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddiwrth bawb
Yng

NGHARTREF

Y Foelas

Ffordd yr Orsaf
Llanrug
A phawb i gadw'n saff
01286 674652

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

Y GLYNTWROG LLANRUG

671191

Bwyd ardderchog
am brisiau rhesymol

Bydd croeso
cynnes yma
Dros yr ŵyl

PENISARWAUN

Pwyllgor Gymuned

Tynnwyd y Clwb Cant yn fisol o fis Mawrth ymlaen. Enillwyd mis Rhagfyr yw:

- 1af - Mrs Blodwen Mowll, Bryntirion - 2ail - Ken Williams, Waen.

Dymunir diolch i chi'r aelodau ffyddlon am eich ffyddlondeb drwy 2020 i'r Clwb Cant. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymaelodi am £6 y flwyddyn ac mae Archeb Banc ar gael. Hyderwn y cawn eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth eto yn 2021. Arholiadau

Llongyferchir pob un ohonoch ar eich llwyddiannau a hynny ar adeg mor bryderus. Dymunir pob lwc i chi i gyd i'r dyfodol.

Cydymdeimlad

Yn ystod y cyfnod clo anodd yma cydymdeimlir â nifer ohonoch sydd wedi colli anwyliad. Byddwn yn meddwl amdanoch dros y Nadolig.

Gwellhad

Dymunir adferiad iechyd buan i nifer ohonoch sy'n sâl, gan obeithio y byddwch yn teimlo'n well erbyn y Nadolig.

Gwirfoddolwyr

Mawr yw ein diolch i'r criw o bobl ifanc a wirfoddolodd i gynig cymorth yn ystod y cyfnod clo. Dymuna trigolion Bryn Eglwys ddiolch i Elin Prysor am ei charedigrwydd yn ddyddiol a hynny drwy bob tywydd.

Cofion

Anfonir ein cofion at Myra Griffith sydd wedi symud i Gaerdydd i fod yn nes at Euron a'r teulu.

Penblwyddi arbennig

Mae nifer ohonoch wedi cael penblwyddi arbennig yn ystod y cyfnod clo - daw cyfle i ddathlu yn fuan gobeithio. Llongyfarchiadau i Phil Jones am gyrraedd 70 oed.

Ysgol Sul Bosra

Rydym yn anfon ein cofion anwyliad at Anti Liz, ein

Harolygwraig, sy'n hen ddisgwyl am driniaeth i'w dwy ben-glin. Gobeithio y cewch alwad yn fuan. Pob hwyl i chi blant dros y Nadolig. Efallai y cawn gwrdd rywbryd yn 2021.

Teyrngeid

Hyfrydwch oedd cael ymuno â chymdogion yn y clapio haeddiannol i'n Gweithwyr Cymunedol a holl weithwyr diflino'r GIG/NHS. Diolchir i Selwyn am ganu cloch yr Eglwys i bwysleisio'n diolchgarwch.

Pêl Bonws

Tynnwyd Pêl Bonws yn fisol o fis Mawrth ymlaen. Diolchir i bawb am eich cefnogaeth drwy gydol 2020, gan obeithio y cawn yr un gefnogaeth yn 2021.

Eisteddfod Bentref

Llongyferchir ein Trysorydd, Carys a Dafydd ar ddod yn Nain a Thaid am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod clo. Hwyl i chi gyda Greta fach dros y Nadolig. Gobeithio y cawn gynnal Eisteddfod rywbryd yn ystod 2021.

"Wedi'r glaw daw gobaith ym mwa'r enfys!" "Daw eto haul ar fryn."

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd obeithiol i chi i gyd yn 2021.

Eglwys St Helen

Gwasanaethau a gweithgareddau'r Nadolig Goleuo coeden y Nadolig a Charolau, nos Wener Rhagfyr 18eg, 6.00 y.h.,

Fe fydd Siôn Corn yn ymweld â'r pentref ac yn cerdded drwy'r pentref o'r cae chwarae o 5.45 y.h. ac yn goleuo y goeden wrth yr eglwys am 6.00 y.h. os bydd y tywydd yn caniatáu. Fe fydd sgrin fawr ar wal orllewinol yr eglwys yn arddangos a chwarae carolau; caniateir hyd at 30 yn unig i ymuno y tu allan i'r eglwys oherwydd cyfyngiadau Cofid 19. Yn anffodus ni chaniateir dim cysylltiad â Siôn Corn a bydd angen i bawb gadw at y

rheolau pellter o ddwy fedr. Eglwys Agored Dydd Mawrth Rhagfyr 22ain, 3.00 y.p. - 7 y.h. Estynnir croeso i bawb alw i mewn i'r eglwys i gofio am anwyliad, cleifion, milwyr, teulu, yr unig, personau sydd ar goll, y digartref, y tlodion, gwledydd a'i phobl sydd mewn argyfwng, ceiswyr lloches a'u teuluoedd, pawb sydd wedi cael ei effeithio gan Cofid 19, unrhyw achos personol arall neu weddi personol.

Bydd carolau poblogaidd yn cael ei chwarae yn y cefndir. Fe fydd sêr ar gael i bawb sydd yn dymuno ychwanegu enwau arnynt er mwyn iddynt gael eu cynnwys mewn gweddïau yn ystod gwasanaethau'r Nadolig. Bydd cyfyngiadau mewn lle gyda goleuo canhwylau.

Gwasanaethau Noswyl y Nadolig, Rhagfyr 24ain, 6.00 y.h. ac am 9.00 y.h.

Cynhelir dau wasanaeth Cymun undebol teuluol y Nadolig: oherwydd cyfyngiadau Cofid 19 mae'r niferoedd sy'n cael bod yn bresennol yn y gwasanaethau yma yn cael eu cyfyngu. I archebu lle yn un o'r ddau wasanaeth, ffoniwch naill a'i Selwyn: 07966013569 neu Wendy: 07748083539. Bydd angen rhoi gwybod

cyfanswm nifer y mynychwyr o fewn eich grŵp oherwydd y rheolau. Fe fydd yr eglwys yn cael ei glanhau rhwng y gwasanaethau ac mae tracio ac olrhain hefyd yn bodoli. Yn anffodus, nifer penodol o archebion sy'n cyfateb i'r cyfanswm cyfreithiol diogel allwn ni ei derbyn a ni chaniateir mynediad i neb heb archeb.

Cronfa'r Fynwent

Fe dderbynwyd yn ddiolchgar y rhoddion canlynol tuag at gronfa cynnal a chadw y fynwent yn ystod y flwyddyn. £10 Mrs Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt; £20 Mr Gwyn Jones, Gwynfi; £50 Mr a Mrs D C Williams, Fodol Cottage, Y Felinheli; £20 Mr S Roberts, 2 Lôn Tŷ Gwyn, Caernarfon; £20 Mrs Norah O'Brien Er cof am Jim a Margaret Munro, Tŷ Capel gynt; £30 Mr a Mrs Dennis Davies, Awel Menai, 33 Tal y Cae, Tregarth; £10 Helen a William Munro c/o 8 Llys y Gwynt; £45 Mr Selwyn Griffith 7 Tal y Bont, Llanrug; £40 Mr a Mrs R Fleming er cof am Mr a Mrs J Fleming Deiniolen gynt; £10 Mrs Ella Roberts 10 Rhos, Bethel; a £10 Awen Mc Dougal Trefaenor, Commis Coch, Aberystwyth. Fe dderbynnir rhoddion yn ddiolchgar trwy'r trysorydd Selwyn Griffith, 7 Tal y Bont, Llanrug.

BRYNREFAIL

Yr Eglwys Bresbyteriaidd

Bu'r flwyddyn 2020 yn anarferol yn ein hanes fel aelodau oherwydd y cyfyngiadau i gyd-addoli osodwyd mewn perthynas â Covid-19. Er llacio rheolau ers mis Medi, ni fu'n bosib i ni ymgynnull yn ein hystafell arferol yn Caban. Mae'n chwith mawr na fydd modd dathlu'r Nadolig yn ein dull arferol eleni. Rydym yn ddiolchgar am y croeso gawsom y misoedd diwethaf i gyd-addoli yng Nghapel y Rhos, Capel Coch ac i nifer o'r aelodau gael cymryd rhan yn un o wasanaethau yr Adfent yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun.

Wrth nesau at Wyl y Geni anfonwn ein cyfarchion cynnes a phob bendith i'n haelodau a thrigolion y pentref y dyddiau hyn. Mae llawer o ewyllys da wedi bod yn ein plith yn ystod blwyddyn anodd, a mawr yw ein diolch am bob gofal a chymwynas. Edrychwn ymlaen yn obeithiol i'r Flwyddyn Newydd 2021.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddiwrth pawb yn siop harddwch

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis

870328

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddiwrth pawb yn

WELPAR

CYMRU

Canolfan offer weldio

+44 (0)1286 650720

+44 (0)7836 575330

Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda oddiwrth pawb yn

GAREJ GWALIA

CAEATHRO

Ffôn: 673096

Gwasanaeth

Torri Lawr 24 awr

M.O.T. * Trwsio Ceir

Londis

Ar agor 7am - 10pm bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith



Timau Pêl-droed o dan 7 ac 8

Ar ôl seibiant hir, braf yw cael adrodd bod y tymor pêl-droed wedi ail ddechrau i'r tîm dan 7 a dan 8 Waunfawr. Rydym wedi bod yn lwcus i fedru denu nifer o chwaraewyr newydd, ac wedi chwarae sawl gêm yn barod. Gan nad ydi'r oedran yma yn gystadleuol, nid ydym yn cyfri goliau, gan roi pwyslais ar fwynhau a datblygu fel chwaraewyr. Dyma lun o'r tîm dan 8 ar ôl chwarae yn erbyn Seintiau Bangor, a'r tîm dan 7 ar ôl chwarae yn erbyn Bethel.

Coeden Nadolig

Braf iawn gweld bod coeden nadolig fawr wedi ei chodi eto eleni tu allan i'r Ganolfan. O ganlyniad i Covid ni fydd noson goleuo'r goeden a chyngerdd yn cymryd lle fel sy'n arferol, diolch i'r Cyngor Cymuned am drefnu.

Capel y Waun

Ers y cyfnod clo mae aelodau a chyfeillion Capel y Waun wedi cael gwahoddiad i ymuno mewn cyfarfodydd Zoom ac mae'r gwahoddiad hwnnw yn parhau yn agored i unrhyw un sydd am ymuno am 10 o'r gloch ar foreau Sul. Mae'r cyfrinair i'r cyfarfodydd i'w gael ond i chi gysylltu gyda'r Parchg. Anna Jane neu ag Eurwyn Trefeddyg ar 650 347.

Clwb Pêl-droed Waunfawr

Parhau i aros am ddyddiadau gemau mae'r Clwb – tydyn nhw heb chwarae ers Mawrth 7fed bellach. I'r rheiny sydd â diddordeb, mae ymarferion yn parhau pob nos Fawrth am 7.00. Cyfeiriad gwefan y Clwb ydi <http://www.cpdwaunfawr.co.uk/cy/cartref> a gellir hefyd gysylltu â'r Clwb drwy dudalen facebook y clwb @ CPDWaunfawr.

Merched y Wawr

Er nad oes cyfarfodydd yn cael eu trefnu eleni oherwydd Covid mae Glenys Jones wedi bod o amgylch y pentref yn dosbarthu Y Wawr i'r aelodau. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r gangen yn y gobaith bydd cyfarfod yn bosibl rhywbryd flwyddyn nesaf.

Cydymdeimlo

Bu farw Treflyn Thomas yn ei gartref wedi cystudd hir. Rydym yn cydymdeimlo gyda'i weddw, Ann, y meibion Dafydd a Gwyn a'r wyrion i gyd.

Cydymdeimlwn â Fflur, Stad Trefeilian, wedi iddi golli ei modryb yn Llanllyfni yn ddiweddar. Rydym ni'n meddwl amdanat Fflur.

Radio Cymru

Difyr iawn oedd clywed Norman Williams, Lliadart Wen yn sôn am ffilmio Minafon, cyfres deledu wych a phoblogaidd fu ar S4C. Norman oedd cynhyrchydd y gyfres, ac fe'i hysgrifenydd gan Eira Lewis Roberts, sydd â chysylltiadau agos â Waunfawr a fferm Garreg Fawr.

Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Nia a Geraint Mitchell,

Fach Goch, ar eu priodas ddiweddar ar Hydref 6ed. Hogan o Waunfawr yw Nia, a Geraint yn dod o Landwrog. Dymuniadau gorau i chi a phob hapusrwydd.

Croesawu i'r Pentref

Croeso yn ôl i Dafydd Greasley i Waunfawr – mae Dafydd, Ceira a Llion wedi ymgartrefu ym Mryn Gwenallt – pob hapusrwydd iddynt.

Croeso hefyd i'r Waun i Dafydd ac Ellen sydd wedi symud i fyw i Llechwedd o Bontnewydd. Mae Dafydd ac Ellen yn daid a nain i Aaron, Cae Glas, ac yn hen daid a nain i Math a Llew – gobeithio byddwch yn hapus iawn yma.

Plaid Cymru

Er nad oes cyfarfodydd o'r gangen yn cymryd lle, mae prysurdeb mawr tu ôl i'r llenni wrth baratoi ar gyfer etholiadau Senedd Cymru Mai 2021. Mae hon yn etholiad hynod o bwysig, ac anogir pawb i sicrhau bod ganddynt bleidlais gan gynnwys pobl ifanc y pentref sy'n cael pleidleisio yn 16 oed am y tro cyntaf. Cysylltwch â lola, ysgrifenydd y gangen os ydych angen ffurflenni cofrestru neu os ydych am ymaelodi â'r gangen.

Cyrch yr Heddlu

Bu Heddlu Gogledd Cymru yn hynod o brysur yn y pentref un diwrnod fis diwethaf – mi ddwedodd Keith y Postman nad oedd yn gwybod bod Heddlu Gogledd Cymru yn cyflogi cymaint â hynny o heddwision!! Roedd rhai ohonom yn meddwl bod cwmni ffilmiau wedi cyrraedd y pentref. Ond na, digwyddiad go iawn oedd o. Gobeithio na fyddwn byth yn gweld dim byd tebyg yma eto.

Salwch

Rydym yn cofio yn gynnes iawn at bawb yn y pentref nad ydynt mewn iechyd da ar hyn o bryd. Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau atoch.

Genedigaeth

Rydym yn llongyfarch Tomos Parry, Rhos Celyn, a'i gyymarar enedigaeith eu plentyn cyntaf ac i Terry a Lorna ar ddod yn daid a nain. Bwriada'r teulu ifanc ymgartrefu yn 15 Stâd Ty Hen.

Diolch

Diolch unwaith eto i holl staff y Feddygfa am barhau i roi gwasanaeth ardderchog i ni bentrefwyr er gwaetha'r Pandemig a'r holl heriau ddaw yn ei sgîl. Rydym yn eich gwerthfawrogi yn fawr iawn.



Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975

01286 673559

Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk





Yr Urdd

Bu criw prentisiaid yr Urdd yn yr ysgol yn ddiweddar yn cynnig sesiynau iechyd a ffitrwydd i Flwyddyn 3 yn ogystal â chynnig clwb hwyliog ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar ôl ysgol.

PC Dylan Pritchard

Braf oedd croesawu PC Dylan i'r ysgol unwaith eto. Bu'n trafod ymddygiadd gwrth-gymdeithasol gyda disgyblion 4, 5 a 6 gan sôn am bwysigrwydd gwneud y penderfyniadau cywir mewn bywyd. Yr oedd y plant yn gwrandao'n astud arno ac yn amlwg yn meddwl yn ddwys am yr hyn a glywsant ganddo.

Sbectrwm - Hafan Cymru

Croesawyd Meri Jones o gynllun Sbectrwm i'r ysgol. Bu'n trafod sawl maes gan gynnwys stereoteipio ar sail rhyw a pherthnasoedd iach gyda'r disgyblion. Mae hwn yn rhan o flaenoriaeth lechyd a Lles yr ysgol ar gyfer eleni.

Gwasanaeth y Cofio

Braint oedd gweld disgyblion hynaf yr ysgol yn cynnig gwasanaeth teimladwy ar Ddydd y Cofio eleni. Diolch hefyd i rai o drigolion y pentref a ddaeth i'w gweld yn gosod torch i gofio am y rhai a gollwyd.

Plant Mewn Angen

Gwisgodd pawb eu pyjamas a chyrraedd yr ysgol gyda gwalltiau gwyllt ar gyfer y diwrnod eleni. Casglwyd swm anrhydeddus o bron i £200 - diolch i bawb am eu haelioni.

Paid Cyffwrdd Dweud!

Cafwyd fersiwn rhithiol o'r cyflwyniad eleni gan Sian Miriam a bu Blwyddyn 4 yn gwyllo'r cyflwyniad fel rhan o thema'r Corff. Yr oeddynt yn ymwybodol iawn o effaith niweidol alcohol a chyffuriau ar y corff.

Wythnos Gwrth Fwlio

Bu i holl blant yr ysgol drafod negeseuon pwysig ynglŷn ag atal bwlio a sut i droi am gymorth. Gwnaethpwyd posteri i'w harddangos yn yr ysgol, trafodwyd straeon am gyfeillgarwch a bu i Flwyddyn 3 feddwl am eiriau arbennig a charedig i ddisgrifio ffrind.



LLANRUG

Merched y Wawr

Yn ystod y cyfnod clo pan nad oedd yn bosib cynnal cyfarfodydd Merched y Wawr yn ein hardaloedd, bu cadw cysylltiadau cyson yn holl bwysig. I ddiolch i bawb am gefnogaeth llwyr, anfonodd Meirwen Lloyd, ein Llywydd Cenedlaethol, gyfarchion at bob aelod gyda dymuniadau gorau at yr Wyl a'r Flwyddyn Newydd.

Bu Cwis Hwyl ar y we ym mis Hydref, a deallwn fod llawer wedi ymuno a chyflwyno yr atebion mewn pryd! Mae cystadleuaeth creu cerdyn Nadolig 2021 wedi pasio hefyd.

Bu Ffair Aeaf rithiol lwyddiannus ac fe gafwyd y canlyniadau gyda lluniau o'r buddugwyr ar y we - merchedywawr.cymru/digwyddiad/ffair-aeaf-2020. Diolch yn fawr iawn i Bethanne Williams am ein diweddarau gyda'r wybodaeth bwysicaf.

Dymunwn wellhad buan i sawl aelod sydd wedi cael damwain a thriniaethau yn ddiweddar iawn: yn benodol, Margaret Parry a Megan Roberts.

Gair i gloi gan Bethanne - Wel, mae wedi bod yn amser rhyfedd i ni i gyd! Gyda'r newyddion diweddaraf, mae gobaith y bydd y flwyddyn newydd yn well. Diolch i'n llywydd, Non, mi gawsom gyfle i gwrdd yn ei gardd ym mis Medi, a mwynhau cwmpeini ein gilydd. Gan fod y tywydd wedi bod mor anwadal, ni chawsom gyfle i gwrdd wyneb yn wyneb wedyn. Diolch fod y Mudiad wedi bod yn brysur gyda chyfarfodydd Zoom. Dwi'n falch o ddweud fod tair aelod wedi ceisio yn y Ffair Aeaf Rhithiol, er ddim wedi dod i'r brig eleni. Diolch am eich cyfraniad. Tan i ni gwrdd

tro nesa', ar ran swyddogion Cangen Llanrug o Ferched y Wawr, gaf i ddymuno Nadolig Llawn i chi i gyd a Blwyddyn Newydd Well yn 2021.

Hafan Elan

Ar y 18fed o Dachwedd darparwyd 'bocs te bach' i bob person o Hafan Elan ac aelodau o'r cyhoedd fyddai yn cael cinio neu bingo yno. Darparwyd y bwyd gan y merched arferai weini y cinio. Llwyddiannus iawn oedd yr ymatebiad - pawb wedi mwynhau!

Nadolig

Hoffai Megan Williams, Bron Eryri, ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w chymdogion a'i holl ffrindiau yn Llanrug.

Priodas Aur

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau mawr i Dafydd ac Eirianwen Whiteside Thomas ar eu penblwydd priodas aur. Gobeithio eich bod wedi cael rhywfaint o ddathlu.

Cofion Gorau

Cofion arbennig at Jacqueline Pugh, Ffordd Glanmoelyn. Deallwn fod llawer iawn o ffrindiau yn galw i dy weld i dy gadw i fyny gyda'r newyddion (jangles fwya!).

Profedigaethau

Trist oedd deall am farwolaeth Gwyndaf Lewis, Cwm y Glo. Cofiwn yn ddiffuant at Carys ei chwaer, Hyfrydle, Ffordd Cwawia, a'r teulu i gyd.

Yn yr un modd cofiwn at Gareth Griffiths, Tan y Coed, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Buddug, yn enedigol o Ddeiniolen.

Hefyd, Sherry a Dilwyn a'r teulu, Groeslon Marc, yn dilyn marwolaeth mam Sherry.

Cydymdeimlwn ag unrhyw deulu sydd wedi wynebu profedigaeth yn ystod yr

cyfnod clo, ac ymddiheurwn os nad oeddem yn ymwybodol o unigolion.

Capel y Rhos

Cofion gorau at Margaret Parry, Bro Dawel, a Megan Roberts, Gregynog, yn dilyn damweiniau a thriniaethau. Brysiwch wella.

Bydd y gwasanaethau nesaf dan law y Gweinidog ar yr 20fed o Ragfyr, 3ydd o Ionawr a'r 17eg o Ionawr.

Ni chynhelir y gwasanaeth fore Nadolig fel yr arfer, ac mae y Gweinidog yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Clwb Clychau'r Grug

Diolch o galon i Nia am drefnu 'App Clychau'r Grug'. 'Eli'r galon', bob dydd yw cael mwynhau'r negeseuon gogleisiol sy'n codi gwên gyda'r jôcs pryfoclyd a'r straeon trwstan. Da deall fod nifer o'r aelodau yn gwella wedi damweiniau a salwch yn ddiweddar. Diolch i Heulwen am drefnu'r cyfarfodydd achlysurol - pawb â'i fwgwd, cadw pellter, picnic a chadair haul a llond trol o chwerthin! Llongyferchir Helen ar ei phenblwydd arbennig.

Anfonir ein cofion anwylaf at Glenys a Siencyn i lawr yn y De.

Plaid Cymru

Enillwyr y Clwb Cant: Hydref - 1. Paul Rowlinson, Bethesda, 2. Berwyn Jones, Llanrug

Tachwedd - 1. Megan Williams, Llanrug, 2. D A Jones, Llanrug

Cyngor Gwynedd yn talu teyrnged i'r diweddar Charles Wyn Jones

Mae Cyngor Gwynedd wedi talu teyrnged i'r diweddar

Gynghorydd Charles Wyn Jones a fu farw ddydd lau 5 Tachwedd 2020.

Fe'i ganwyd yn fab i chwarelwr yn Llanrug ac yno gwnaeth ei gartref gydol ei oes.

Bu'n gwasanaethu ar Gyngor Cymuned Llanrug, Cyngor Bwrdeistref Arfon ac, ers 1995, ar Gyngor Gwynedd. Bu'n Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2004-2005 a gwasanaethodd ar nifer o bwyllgorau eraill y Cyngor dros y blynnyddoedd. Bu'n gweithio gyda British Telecom am 30 mlynedd a chyn iddo ymddeol, ef oedd Rheolwr a Phennaeth Adran Cynllunio'r cwmni yng ngogledd Cymru.

Wedi ymddeol bu'n ysgrifennydd Seindorf Arian Llanrug am gyfnod. Roedd yn un o sylfaenwyr Cangen Gwynedd o'r Gymdeithas Clefyd Alzheimers; ac, wedi iddo gwblhau cwrs diwinyddol, daeth yn bregethwr llyeg.

Talwyd teyrnged i Charles Wyn Jones, gan Gadeirydd presennol Cyngor Gwynedd, y Gynghorydd Edgar Wyn Owen:

"Roedd Charles yn ŵr bonheddig ac yn gynghorydd uchel ei barch ar draws holl grwpiau Cyngor Gwynedd.

"Gwasanaethodd yn ddygn ac yn effeithiol dros ei ardal a thros Gymru am flynyddoedd lawer a bydd coffa da amdano fel aelod o gynghorau Arfon a Gwynedd ac yn enwedig am ei gyfnod fel Cadeirydd Cyngor Gwynedd.

"Mae'n gadael bwlch enfawr ar ei ôl - un a fydd yn anodd iawn ei llenwi. Mae'n cydymdeimlad llwyraf ni yma gyda'i deulu."

Cypyrddau y gegin yn y Ganolfan ar eu newydd wedd! Diolch i Goronwy Huws am drefnu y gwelliannau.



Y Ganolfan

Mae y gegin yn y Ganolfan wedi cael wyneb newydd i'r cypyrddau a lloriau newydd yn y toiledau. Diolch i Goronwy Huws am y trefniadau a'r goruchwilio, braf gweld y cwbl mor lân. Cafwyd teledu mawr newydd yn y brif ystafell, gyda diolch arbennig i deulu Llewelyn Williams, er cof amdano.

grid76
graphic design

Design, Print & Signage

North Wales Signs
Gogledd Cymru

Nadolig Llawn

Unit A9,
Cibyn Ind Estate,
Caernarfon.
LL55 2BD
01286 674817
07766 956 673
gwyndaf@grid76.co.uk

Ysgol Gynradd Llanrug



Ymddeoliad

Bu i Heulwen Evans ymddeol ddiwedd tymor yr haf ar ôl 38 o flynyddoedd fel athrawes. Yn 2003 penodwyd hi yn bennaeth y Cyfnod Sylfaen. Bu ei chyfraniad yn un gwerthfawr ac eang, gan gynnwys hyfforddi Dawnsio Gwerin a Dawns y Blodau ar gyfer eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Rydym yn diolch iddi am ei hymroddiad dros y blynyddoedd ac yn dymuno yn dda iddi.

Neges gan Heulwen Evans -

Dymunaf ddiolch i bawb yn staff, plant, rhieni a ffrindiau'r ysgol am eu haelioni ar fy ymddeoliad diwedd tymor yr haf.

Wedi blynyddoedd maith yn dysgu yn yr ysgol, bydd gennyf atgofion melyn i'w trysori am byth.

Diolch yn fawr, Heulwen Evans



Beicio

Bu'r ysgol yn llwyddiannus yn derbyn grant ar ddechrau'r flwyddyn a prynwyd 12 beic balans newydd. Mae'r plant wrth eu bodd yn ymarfer eu sgiliau.



Codi Arian

Bu pob dosbarth yn brysur yn cefnogi Plant mewn Angen gyda llawer o'r plant yn dilyn her y BBC ac yn Actia dy Oed!



Codi Ymwybyddiaeth

Bu plant yr Adran Iau yn cefnogi ymgyrch gwrth fwlio ac yn gwisgo sanau od.



Meddylfryd o Dwf

Fel rhan o'r gwaith yma cafodd holl blant yr ysgol ddiwrnod o dasgau hwyliog oedd yn cefnogi y syniad o 'feddwl gwyrdd'.

Dyma rai o ddosbarth Bigil yn adeiladu pont.



Nadolig
Er na fyddwn yn dathlu y Nadolig yn y drefn arferol mae'r plant yn brysur yn dysgu am stori'r geni, canu carolau a gwneud crefftau.

Mae holl newyddion cyfredol yr ysgol i'w gael ar y cyfrif trydar, @YsgolGynLlanrug



Dyluniadau Menai

Mae Menai Rowlands yn artist ifanc sy'n wreiddiol o Lanfaglan. Ar ôl derbyn ei haddysg yn Ysgol Brynrefail, dihangodd i wneud gradd mewn Dylunio Cynnyrch ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Abertawe, yna Dylunio a Chreu 3D yng Nghaerfyrddin. Dyma'r Eco yn mynd i'w holi am ei dylanwadau, ei hanes, ei chelf a'i gwaith:

Sut mae cyfnod Covid wedi dy drin di?

Fel y gallaf ddychmygu ei fod wedi bod i bawb, bu'n anodd addasu fy ffordd o weithio yn gyflym. Roeddwn i wedi oedi fy nghynhyrchu yn y gweithdy yn ystod y cyfnod clo, ond ers hynny dwi wedi dechrau trosglwyddo i weithio ar-lein. Dwi'n hynod o ddiolchgar bod fy ffrindiau a fy nheulu wedi bod mor gefnogol.

Lle ddechreuodd y diddordeb mewn celf?

O oedran ifanc roeddwn wedi bod â diddordeb mewn darlunio a defnyddio fy nychymyg, ac roeddwn yn ddigon ffodus i gael fy nghyflwyno i orielau celf a gwyliau gwerin gan fy rhieni. Rwy'n credu ar y pryd fy mod i unai am fynd tuag at gerddoriaeth neu at gelf a dylunio. Doeddwn i ddim yn gwybod ar y pryd ond mae gen i ddyslecia a dyspraxia. Credaf i'r nodweddion hyn fy nhynnu tuag at agwedd weledol o gelf, a'r agweddau datrys problemau o ddylunio.

Pa fath o waith wyt ti'n ei greu?



Offhand Photography



Rwy'n mwynhau archwilio i mewn i wahanol gyfryngau. Ar hyn o bryd rydw i'n creu gwaith darlunio a gemwaith pren. Ar ôl graddio yn 2015, roeddwn yn ffodus i chwarae gyda'r offer rhyfeddol yn Fablab yn Pontio Bangor, yn benodol y torrwr laser. Caniataodd hyn i mi archwilio i mewn i wneud cynhyrchion pren wedi'u torri â laser.

Oes gen ti ddylanwadau penodol?

Mae gen i lawer o ddylanwadau yn fy ngwaith, mae'n debyg ei fod yn stwnsh o fyw mewn ardal mor brydferth, elfennau o'r dyluniadau Cymreig, atgofion, a phobl greadigol eraill.

Wyt ti'n gweithio ar rhywbeth penodol ar gyfer y 'Dolig?

Rwyf newydd ail-lansio fy nhudalen Etsy lle rydw i'n gwerthu fy amrywiol addurniadau, gemwaith ac addurniadau Nadolig. Rwyf hefyd yn gweithio ar amrywiol weithdai plant ar-lein gyda Tŷ Pawb Wrecsam a CARN Caernarfon. Dwi hefyd yn rhedeg sesiynau cymorth yng ngweithdy Ffiws ym Mhorthmadog.

Gallwch ddarganfod a phrynu gwaith Menai yn Stiwdio Creu, Parc Glynllifon, Oriel Mostyn Llandudno neu ar-lein o'i siop ar

Etsy - www.etsy.com/uk/shop/MenaiDesign



Hywel Williams
Aelod Seneddol



CYMORTHFEYDD

Os oes gennych unrhyw fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **Aelod Seneddol** neu **Aelod Cynulliad** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch â'r swyddfa ym Mangor a Chaernarfon.



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad

Swyddfa Etholaeth Caernarfon

hywel.williams.mp@parliament.uk
@HywelPlaidCymru

HywelWilliams AS/MP

8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

Swyddfa Etholaeth Bangor

70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

sian.gwenllian@cynulliad.cymru
@siangwenfelin

SiânGwenllïan AC/AM

yn gweithio'n galed dros bobl Arfon



Adnabod y Gân

Pan dach chi'n clywed cerddoriaeth ar Radio Cymru mae gennych chi syniad go dda o bwy sy'n canu. Byddech chi'n adnabod Bryn Fôn, Elin Fflur ac, os dach chi'n ddigon hen, Edward H. Dafis. Ond nid y fath yna o gerddoriaeth yw'r unig fath dach chi'n clywed mewn diwrnod. Sut ydach chi efo caneuon yr adar? Os ydach chi fel fi fydddech chi ddim yn rhy dda. Gresyn nad oes DJ yna i gyflwyno fel "A dyma, yn rhad ac am ddim, y robin goch i ganu 'Cheap, Cheap!'"

Rhestr go fyr yw'r caneuon adar dw i'n adnabod sef - ysguthan, pioden, y fwyalchen, sgrech y coed, brain a'r robin goch. Tydi hynny ddim yn ddigon da. Roedd Daniel Jenkins Jones yn arbennig ar y rhaglen Natur a Ni wrth gyflwyno cân aderyn bob wythnos ac esbonio sut i'w gofio. Er i mi dro'n galed doedd hynny ddim yn gweithio i mi, yr unig un alla i gofio yw'r robin goch.

Ddoe pan oeddwn i wedi mynd am dro cyn i'r haul godi roeddwn yn clywed y robin goch ym mhob man, bron fel oedd yn fy nilyn i ar y daith. Y gwir oedd roedd llawer ohonyn nhw, ond mi wnaeth wneud i mi feddwl. Tu ôl i gân y robin roedd llawer o ganeuon eraill. Tybed os dw i'n troi'r broblem wyneb i waered a chanolbwyntio ar un o'r caneuon eraill a thrio ei glywed mewn gwahanol lefydd yn ystod y daith? Gwneud yr un peth y tro nesaf, a'r nesaf am wythnos gyfan tan i mi fod yn hollol gyfarwydd â'r gân wedyn chwilio am y canwr, bydd hynny'n ffordd well? Treulio wythnos neu ddwy i sicrhau mod i'n ddigon gyfarwydd wedyn mynd am y nesaf.

Petaswn i ddim ond yn dysgu pedwar newydd bob blwyddyn mi fydda i wrth fy modd!

Beth amdano chi? Os dach chi eisiau gwneud yr un peth ewch allan tuag awr cyn y wawr a chyn i sŵn y drafnidiaeth ddechrau, a mwynhewch!

Mae teithiau Cymdeithas Edward Llwyd wedi aildddechrau ond, o achos y cyfyngiadau, dim ond i aelodau. Yn anffodus mae llawer o deithiau wedi cael eu gohirio achos cyfyngiadau lleol. Edrychwn ymlaen am ddyddiau gwell i ni gyd.

Cadwch yn ddiogel
Rob Evans

Un funud fach ...

DOETHION

O'r dwyrain y daethon nhw; y tri gŵr doeth. Fuon nhw fawr o dro'n dod a deud y gwir, ond roedd yna olwg arnyn nhw. Roedd yr olwg flinedig yn awgrymu iddyn nhw gael siwrnai annifyr. Bron na feddyliech fod rhywun wedi ymosod arnyn nhw. Ond nid yn gymaint y doethion eu hunain chwaith, ond y bocs yr oedden nhw ynddo. Roedd y doethion eu hunain yn ddianaf, ond roedd y bocs wedi ei rwygo mewn dau neu dri lle.

Dwi'n gwybod nad y bocs oedd yn bwysig ond y doethion a'r camelod a'r anrhegion oedd ynddo. Ond mae'n deg disgwyl i rywbeth a brynwch yn newydd fod yn gyfan. O bosib y byddwn wedi anwybyddu'r difrod oni bai mai anrhegion i'r wyrion oedd y tair set o ddoethion a brynais. Doeddwn i ddim yn awyddus i orfod penderfynu pa deulu fyddai'n cael y bocs blêr oedd wedi ei rwygo! Felly doedd dim amdani ond anfon lluniau o'r difrod i'r cwmni, ac o fewn ychydig ddyddiau roedd tri gŵr doeth arall wedi cyrraedd acw'n ddiogel. Ac er i mi gynnig gwneud hynny, fu dim rhaid anfon y doethion gwreiddiol 'yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall'. Mae'n bosibl yr anfonaf un gŵr doeth a'i gamel i bob un o'r tri thŷ efo'r set gyflawn yn y gobaith y bydd cael pedwar gŵr doeth yn atgoffa'r wyrion nad yw'r Beibl yn dweud mai tri ohonyn nhw ddaeth i Fethlehem.

Wn i ddim pa olwg oedd ar y dynion hynny erbyn iddyn nhw gyrraedd. Ychydig a ddywedir amdanynt yn Efengyl Mathew; ac yn sicr does dim disgrifiad o'u gwisg na'u hymddangosiad. A does dim sôn am goronau na hyd yn oed gamelod! Ond nid yr allanol oedd yn bwysig. Fel y soniais, fyddwn i ddim wedi poeni am y bocs blêr oni bai fy mod am roi anrheg cystal i bob un o'r wyrion. Ac o ran y doethion a ddaeth i Fethlehem, nid y pethau allanol oedd yn cyfrif ond eu dymuniad i weld 'yr hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon' a'u hawydd 'i'w addoli'. Pwysicach nag unrhyw fanylyn allanol yw eu llawenydd o weld yr Iesu a'r ffaith iddynt syrthio i lawr a'i addoli, a rhoi iddo eu hanrhegion gwerthfawr.

Ar drothwy'r Nadolig eleni, erys ansicrwydd mawr ynghylch allanolion yr Ŵyl. Ac nid yn unig y partion a'r siopa a'r anrhegion a olygaf wrth hynny, ond llawer o'r traddodiadau sydd gennym yn ein capeli a'n heglwysi ar gyfer y dathliadau. Yn sicr, bydd canu carolau yn beth prin eleni wrth i ni ymdrechu i gadw pawb yn ddiogel yn wyneb yr haint a fu'n fgythiad ers y gwanwyn. Ond wedi ein hamddifadu am y tro o lawer o'r pethau y dibynnwn arnynt er mwyn dathlu'r Ŵyl, gweddiwn y cawn er hynny olwg – fel y cafodd y doethion – ar fawredd y plentyn bach a aned i Mair. Hyd yn oed os na chawn ddathlu yn ôl ein harfer, dowch i ni lawenhau yn ein calonau fod Achubwr wedi ei anfon atom, a bod yr Achubwr hwnnw, ac yntau'n Fab y Duw Byw, ar ddechrau ei daith ddaearol wedi ei eni'n faban bach ac wedi ei roi i orwedd mewn preseb.

JOHN PRITCHARD




Y Storfa, Spar, Llanrug

Sgwâr Llanrug

01286 673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes

Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuon Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn - 01286-870253


enquiries@theroyalvictoria.co.uk



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Dolbadarn Inn a Padarn Villa



Yn dilyn y cwestiwn y mis diwethaf ynglŷn â pha bryd y gwerthwyd tiroedd Peter Wright yn Llanberis. Mae'n ymddangos fod Assheton Smith wedi prynu'r tir (sy'n egluro sut roedd aelodau o'r teulu Wright yn byw'n fras heb alwedigaeth!) ac yn derbyn rhent am yr eiddo oddi ar y gwahanol denantiaid.

Roedd Gorsaf Llanberis wedi ei hadeiladu ar dir Dolbadarn. Felly, mae'n eithaf amlwg fod Padarn Villa (yr hen enw ar Padarn Lake) hefyd wedi ei adeiladu ar eu tir. Ond pam y byddai perchennog tir y Dolbadarn Inn yn rhoi caniatâd i godi gwesty arall lai na thafliaid carreg i ffwrdd, ac a fyddai'n cystadlu am gwsmeriaid? Methais â chael cyfeiriad at wella'r Dolbadarn ar ôl 1824, ac mae'n amlwg fod y Royal Victoria wedi chwarae rhan allweddol mewn denu twristiaid i'r ardal, felly doedd adeiladu gwesty newydd arall ddim yn fenter rhy ryfygus.

Doedd y Padarn Villa ddim yn bod yn 1851, ac ar gyfrifiad y flwyddyn honno, gŵr o'r enw Edward Humphreys oedd yn cadw'r Dolbadarn Inn; wedi ei eni yn Llantysilio, sef Porthaethwy. Roedd ei wraig, Elizabeth, o Landdeiniolen, ond doedd yr un o'r gweithwyr yn gysylltiedig â'r dafarn na'r fferm yn enedigol o Lanberis.

Rywdro rhwng 1851 ac 1861 adeiladwyd Padarn Villa, ac erbyn hynny roedd Edward Humphreys a'i deulu wedi symud i'r adeilad newydd, ac yn cyflogi saith o weithwyr. Dwy ferch ifanc yn unig sy'n byw yn y Dolbadarn Inn, ac yn amlwg yn cael eu cyflogi – un fel gweinyddes ac un i gadw tŷ a golchi. Erbyn hyn hefyd roedd Padarn Villa yn cael ei

hysbysebu fel gwesty oedd yn derbyn teithwyr ar goets o Gaernarfon. Mae'r cyfrifiad yn cadarnhau hyn, oherwydd mae ostler a 'coach driver' yn cael eu cyflogi yno. Roedd oes twristiaeth wedi dechrau go iawn, ac o fewn degawd arall byddai'r trên yn cario pobl o bob cwr o'r wlad i'r pentref.

Mae'r wybodaeth gychwynnol hon yn awgrymu mai Edward Humphreys oedd tenant y Dolbadarn Inn, ac mai ef a symudodd oddi yno i'r Padarn Villa wedi iddi gael ei hadeiladu. Ond nid arhosodd yma'n hir iawn. Cyn diwedd yr 1860'au roedd wedi symud i Gaernarfon. (Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan adroddiad am ginio i ddathlu dyfodiad John Ellis Williams i'r Padarn Villa ym mis Ebrill 1869.) Yng Nghaernarfon, roedd Edward Humphreys yn cadw hen westy'r Uxbridge, sef y Royal Hotel, ac arhosodd yno am flynyddoedd cyn dychwelyd i Lanberis (ond stori arall yw honno).

Yn y cyfnod hwn roedd yn ffermio'r Parciau ger Griffith's Crossing a Cefntersaint (Kent), Pontrug. Roedd yn fridiwr gwartheg, yn enwedig Gwartheg Duon Cymreig. Ef oedd sylfaenydd y "Welsh Black Cattle Book", sef llyfr yn cofnodi pedigri y gwartheg duon. Roedd erbyn hyn yn ŵr amlwg iawn ym mywyd tref Caernarfon.

Felly, pwy oedd Edward Humphreys? Fe'i ganed i deulu o dafarnwyr: roedd ei dad yn cadw'r Anglesey Arms ym Mhorthaethwy; bu brawd iddo hefyd yn cadw gwesty yn yr un dref. Roeddent, fel Edward yn Llanberis a Chaernarfon, yn amlwg gyda busnes rhedeg coets fawr. Mae'n ymddangos iddo symud i Lanberis tua 1845-46 yn ŵr ifanc tua 23ain oed. Priododd ag Ellen Evans ddiwedd 1846 a ganwyd mab, Robert yn Nhachwedd 1847. Ond bu Ellen farw'n ifanc; o bosib ar enedigaeth y mab.

Priododd am yr ail waith ar 8 Hydref 1850 yn eglwys y plwyf gydag Elizabeth Ellis, merch Griffith Ellis, Hafotty, Dinorwig; stiward yn Chwael Dinorwig. Cawsant bedwar o blant: Olive, Mary Kate, Griffith Ellis ac Edward Wallis (Wallace). Bu Elizabeth farw yn 1870, ychydig amser wedi symud o Lanberis i Gaernarfon.

Priododd Edward Humphreys am y drydedd waith gyda Miss Williams, un o'r ddwy chwaer oedd yn gyfrifol am Westy Victoria, Llanberis.

Yn y cyfamser, roedd y Dolbadarn Inn erbyn 1871 yn cael ei chadw gan Robert Roberts o Nefyn. (Cafwyd hanes y teulu hwn mewn rhifynnau cynharach o'r "Eco".) Ac erbyn 1881, aelod arall o'r teulu hwn oedd yn cadw'r Padarn Villa.

Ond mae rhai cwestiynau'n aros. A werthwyd y Royal Victoria a'r Padarn Villa gan Assheton Smith? Rwy'n holi, oherwydd rhyw bymtheng mlynedd yn ôl bûm yn catalogio deunydd a drosglwyddwyd i'r Archifdy yng Nghaernarfon o Gwmni Rheilffordd yr Wyddfa. Ac yn y blynyddoedd cynnar, roedd y cwmni rheilffordd yn berchnogion ar Westy'r Victoria ac ar Padarn Villa. Credaf mai dyma pryd y newidiwyd yr enw i Padarn Lake. A oedd gwerthiant y Victoria yn 1894 hefyd yn cynnwys Padarn Villa? Ac ar drywydd hollol wahanol, roedd yn fwrriad gan y cwmni rheilffordd – a oedd yn berchen y tir rhwng y ddau westy hefyd – i sefydlu maes chwarae golff yma. A phe bai hynny wedi ei wireddu, byddai hen bentref bach Llanbêr yn dipyn gwahanol heddiw!

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS



DYLAN GRIFFITH

Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal

Busnes Teuluol

Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

Coparet Gallt y Foel



Hen lun o Pen Inclên gyda'r tŷ gwair yn y cefn



Y tŷ gwair a oedd yn cael ei alw yn coparet



Taflen nwyddau y "Bryn Sardis Society"

Mae bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers i bwt am dai ar Gallt y Foel o'r enw Coparet ymddangos yn y golofn hon. Roedd yr enwau yn bod ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond prin oedd y wybodaeth amdanynt nes cael galwad ffôn gan Alwyn Williams, Wylfa, Pen Inclên, Gallt y Foel. Cefais wahoddiad i ymweld (roedd hyn cyn y Cloi ym mis Mawrth), ac adroddodd fod ei nain, a oedd yn fyw yn y cyfnod hwnnw, yn dweud fod tŷ gwair Pen Inclên yn arfer bod yn goparet.

Ond a oedd y tŷ gwair yn rhyw fath o siop neu'n storfa ar gyfer bwydydd anifeiliaid? A rhaid cofio fod nifer helaeth o dyddynnod ardal Dinorwig, y Bigil a'r Fachwen bryd hynny yn cadw buwch neu ddwy, defaid, moch a dofednod. Byddai cymdeithas gydweithredol wedi bod yn llawer mwy hwylus, yn fwy buddiol – ac yn rhatach, yn hytrach nag i bob unigolyn ofalu am ei bryniant ei hun.

Ac yna, i gymhlethu pethau, rhannodd Haydn Lewis, Penisarwaun lun taflen nwyddau ar y cyfryngau cymdeithasol rhyw ddeufis yn ôl gyda'r teitl "Bryn Sardis Society". Roedd y gymdeithas wedi ei sefydlu yn Ionawr 1895. Yn anffodus, doedd gan Haydn ddim gwybodaeth am y gymdeithas, a methais innau â chael unrhyw gyfeiriad ati yn unman, ond mae'n ymddangos mai rhyw fath o gymdeithas gydweithredol oedd hon. Tybed a oedd y Bryn Sardis Society yn defnyddio tŷ gwair Pen Inclên i storio nwyddau?

Gyda diolch i Alwyn Williams a Haydn Lewis am osod problem go ddyrys, ac un sydd hyd yn hyn, heb ei datrys – os nad oes rhywrai eraill o'r darllenwyr yn gallu helpu.



DIONI



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
 Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG



E. W. PRITCHARD

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE, LLANBERIS

FFÔN - (01286) 870202



ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Cyngor Llanddeiniolen 3ydd Tachwedd 2020

Cyfarfod Blynnyddol a Chyfarfod misol Croeso

Rhoddodd y Cadeirydd air o groeso i bawb.

Etholwyd y Canlynol:

Cadeirydd - Gareth W Griffiths

Is-gadeirydd - Emma Chappell

Swyddogaeth y Clerc - Phyllis Ellis, Richard Ll. Jones a Rhian Evans-Hill

Pwyllgor Llwybrau Cyhoeddus - Phyllis Ellis, R. Hefin Williams, Jane Pierce ac Emma Chappell

Parciau a Meysydd Chwarae - Lowri Hughes, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill a Gareth Griffiths

Cynrychiolydd ar Lywodraethwyr Ysgolion Cynradd:

Mae'r swyddogion presennol yn fodlon aros nes daw eu tymor i ben.

Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi - Lowri Hughes

Ysgol Gynradd Penisa'r-waun - Phyllis Ellis

Ysgol Gynradd Bethel - Richard LL. Jones

Un Llais Cymru - Rhian Evans-Hill.

Cyfarfod 6ed Hydref 2020

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r cofnodion

Llwybrau - Derbyniwyd cadarnhad o dderbyn ein llythyr gan swyddog Tramwy Cyngor Gwynedd. Bydd mwy o fanylion unwaith bydd wedi ymweld â'r llwybrau perthnasol.

Mapiau Llwybrau - Derbyniwyd ymateb gan yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy yn nodi ei fod am edrych i mewn i'r mapio anghywir ac y buasai yn cael sgwrs gyda chyfreithiwr y Cyngor er mwyn canfod y ffordd orau o ddatrys y mater dan sylw.

Meysydd Chwarae - Nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu â'r Cyngor Sir i geisio cael yr adroddiadau diweddaraf ar y parciau chwarae. Hefyd mae hi wedi cysylltu â Rospa I gael amcan bris ar adroddiad ar yr holl barciau yn y plwyf. Heb gael ymateb hyd yn hyn.

Gohebiaethau a Materion Eraill

Cyfngiadau Parcio Arfaethedig - Derbyniwyd llythyr a map o'r Cyngor Sir gyda'r bwriad o gynllun i osod llinellau dwbl yn:

Allt Ddu, Dinorwig - Mae'r Cyngor yn croesawu'r cynllun yma ac yn gefnogol.

Garej Arfon (dwy ochor i'r lôn) - Mae'r Cyngor yn croesawu hyn hefyd, ond dylai'r Cyngor Sir edrych i ymestyn y llinellau dwbl ymhellach i lawr y lôn wrth y gongl a'r Capel. Mae y rhan yma o'r lôn yn beryglus gyda cheir yn parcio yn wastad ar gongl troad i fyny Pentre' Helen, a cheir yn parcio is lawr ger y Capel. Mae plant yn cerdded o'r ysgol ac yn croesi'r lôn er mwyn mynd i dai yng Nghlwt y Bont yno.

Llwybrau - Derbyniwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn datgan eu bod wedi gyrru cwyn i adran Tramwy yng Nghyngor Gwynedd am giât drydan sydd wedi ei gosod ar lwybr cyhoeddus sydd yn mynd rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Braich uwchben Deiniolen. Mae yno giât fawr a giât fach, ac mae'r ddwy yn electronig. Nid yw byth wedi cael ateb a hynny ers mis Gorffennaf. Mae'r Clerc am edrych i mewn i'r mater a chysylltu â'r Cyngor Sir i weld os oes unrhyw ddatblygiad pellach ar y mater yma.

Cynllun 'Awards for All' - Derbyniwyd llythyr gan Elwyn Jones ynglŷn â'r cynllun yma sydd yn cael ei ariannu o grant o'r Gist Loteri. Cynllun lle mae grwpiau o wirfoddolwyr wedi eu sefydlu mewn pentrefi i gefnogi i ddosbarthu pecynnau bwyd syml yn wythnosol. Ni fydd angen i'r Cyngor Cymuned wneud dim ond derbyn yr arian, a thalu yn fisol am y bwyd o'r arian sydd wedi ei glustnodi. Wedi trafodaeth, penderfynwyd ei fod yn syniad gwych a derbyn ei gais. Bydd y Cynghorydd Elwyn Jones yn gobeithio felly derbyn arian o'r Gist Loteri (os yn llwyddiannus) bydd yn dosbarthu nwyddau i'r henoed dros 65 ym Mhenisa'r-waun a Rhiwlas. Pwysleisiwyd fod yn bwysig fod pawb sydd yn disgyn i'r categori yn cael y cynnig.

Cynllunio

Rynys Llanddeiniolen C20/0776/18/AC

Yn dilyn cyfarfod i drafod y cais, penderfynwyd nad oedd rheswm i wrthwynebu y cais. Fodd bynnag, nodwyd o edrych ar y cynlluniau a'r ceisiadau gwreiddiol fod yna gais cynllunio wedi ei Basio ar yr adeilad yma, heb i'r Cyngor dderbyn cais cynllunio, ac felly methu rhoi sylwadau arno. Mae'r Cyngor yn bryderus fod nifer o geisiadau yn cael eu gwneud sydd wedi bod dan amodau gan Gyngor Gwynedd yn y cais gwreiddiol, ac eto yn cael eu caniatáu drwy geisiadau Newydd. Mae Cyngor Gwynedd yn mynd yn ôl ar eu polisiâu eu hunain, ac yn rhoi cynsail i eraill.

Rydym dal yn disgwyl am esboniad pam na chawsom dderbyn y cais a rhoi ein barn arno yn ôl ym mis Mai eleni.

Lleiniau, Deiniolen C20/0790/18/LL

Penderfynwyd nad oedd gennym wrthwynebiad i'r cynllun, ond gwnaed sylwadau fod angen gwarchod y llwybr cyhoeddus sydd yn mynd heibio i'r adeilad ynghyd â'r broblem parcio sydd gan ymwelwyr ar ochr y briffordd i mewn i Ddeiniolen.

72 Caeau Gleision, Rhiwlas C20/0799/18/LL

Cais i wneud estyniad to gwastad yng nghefn yr eiddo. Nid oes gwrthwynebiad.

Rhoddion Ariannol Blynnyddol

Daeth 12 cais i law eleni. Penderfynwyd rhannu fel a ganlyn:

Pêl-droed Ieuenctid Bethel.....	£300
Clwb Snwcer Bethel.....	£100
Seindorf Arian Deiniolen.....	£300
Clwb Bowlio dan do Bethel.....	£100
Llais Ogwan.....	£75
Neuadd Gymuned Penisa'r-waun.....	£300
Neuadd Gymuned Rhiwlas.....	£300
Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd....	£500
(Bydd hyn yn dod a chyfanswm i £1000. Bydd £250 yn mynd at gyfraniad y cwota o'r pentrefi o fewn y plwyf)	
Ysgol Feithrin Deiniolen	£300

Un cais arall a godwyd, ac sydd wedi ei roi i mewn o'r blaen yw cael hysbysfwrdd Cyngor Cymuned ym mhob pentref. Cytunwyd ein bod yn rhoi hysbysfwrdd ym mhob pentref. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr feddwl am le addas i roi hysbysfwrdd yn eu pentrefi ar gyfer y cyfarfod nesaf.






Gwyliau ARVONIA

- Gwyliau ym Mhrydain ac Ewrop ▪ Teithiau grŵp
- Cyngherddau a sioeau ▪ Teithiau diwrnod
- Teithiau drost nos ▪ Cerbydau moethus

01286-675175 www.arvoniu.co.uk




Siân Gwenllïan AC a Hywel Williams AS yn cefnogi etholwyr Arfon yn ystod argyfwng Covid-19.


Er bod yr holl staff yn gweithio o adra ar hyn o bryd, rydym yn parhau i ateb eich ymholiadau

01286 672076

sian.gwenllian@cynulliad.cymru

hywel.williams.mp@parliament.uk





O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS TACHWEDD 2020:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor yn y Ganolfan nos Fercher yr 11eg o Dachwedd, 2020 am 7 y.h.

Estynnwyd croeso i'r aelodau wrth iddynt ddod yn ôl eto i'r Ganolfan gan ddefnyddio'r holl ystafell i gadw pawb ar wahân. Unwaith eto dilynwyd rheolau caeth o ran diogelwch, ac atgoffwyd pawb i roi gwybod os bydd unrhyw newid yn iechyd yr aelodau yn y dyddiau ar ôl y cyfarfod.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Olwen Gwilym, Iwan Harding, Llinos Haf Pritchard.

2 DATGAN BUDDIANT:

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

3 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher 14 Hydref, 2020 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: BH / IO.

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Cynllun Cyfaill:

Y gwasanaeth yn dal ar gael, ond prin yw'r defnydd.

2. Ffordd A4086 a Llifogydd:

Bu'r ffordd ar gau ddwywaith ers y cyfarfod diwethaf, a gwyddom fod un car wedi ei ddifetha. [Roedd wedi ei barcio am o leia bythefnos ger Adwy Ffordd Haearn.] Bu'r Clerc a'r Cyngorydd mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd (CG), cafwyd cydnabyddiaeth i'w llythyrau a'u galwadau gael eu derbyn ond dim mwy na hynny. Yn ôl a ddeallwn bu trafodaeth rhwng y Prif Beiriannydd Sirol a'r Peiriannydd Ardal, ond chafwyd dim gwybodaeth bellach.

3. Lampau Stryd:

Torrwyd y brigau a oedd yn cysgodi'r lampau yn Llanberis. Hefyd diffoddwyd y lamp ger yr Hafod, Nantperis a chafwyd addewid y byddai'r un ger Tangadlas yn cael ei thrwsio. Yn ôl CG roedd angen cael cwmni SP i wneud y gwaith angenrheidiol, a rhybuddiwyd y byddai mis o oedi o leia cyn i'r gwaith gael ei gwblhau.

Dywedwyd fod lamp ar Lôn Fain, yn y Nant hefyd wedi diffodd.

4. Coed Nadolig:

Cafwyd adroddiad fod y coed wedi eu harchebu i Lanberis a'r Nant ac y byddant yn cyrraedd ar 27 Tachwedd. Bydd angen gwirfoddolwyr i'w codi a'u goleuo ar y Sadwrn neu'r Sul canlynol os na fydd y tywydd yn caniatáu. Nodwyd fod angen archebu rhagor o oleuadau, ynghyd â goleuadau ar gyfer coed ychwanegol ym mhen dwyreiniol y pentref.

5. Cae Chwarae Min y Llyn:

Ers y cyfarfod diwethaf roedd y Clerc gyda chymorth un o swyddogion CG wedi ceisio cael pris lleol am ail wneud y darn cwrs rhaffau a choed yn y maes chwarae, ond hyd yma heb lwyddo.

Yn y cyfamser bu KMJ a'r Clerc yn cyfarfod Diane Rowlands o gwmni First Hydro i drafod y posibilrwydd o gael cymorth tuag at y gost. Yn anffodus roedd y cyfarfod nesa o bwyllgor grantia'r cwmni o fewn ychydig ddyddiau ac felly byddai'n amhosib gwneud cais mewn pryd. Dywedodd DR y byddai'n amlinellu ein bwriad i'r pwyllgor, a gan fod cryn dipyn o arian ar ôl eleni oherwydd amgylchiadau Covid-19, byddai'n barod i dderbyn cais hwyr, cyn belled â'i fod i mewn erbyn diwedd Tachwedd. Oherwydd y brys roedd y Clerc am geisio gwneud un ymdrech arall i gael ail bris, cyn y byddai'n rhaid bwrw 'mlaen i wneud y cais i First Hydro. Os y byddai'n llwyddo i gael pris arall yna byddai'n ymgynghori trwy gyfrwng electronig i gael barn aelodau'r Cyngor. Os byddai'r cais grant yn llwyddiannus byddai am offer ond nid llafur.

6. Sul y Cofio:

Adroddwyd i'r dorch gael ei gosod ar y gofeb ar fore Sul y Cofio. Gan nad oedd gwasanaeth roedd rhai wedi dod ynghyd erbyn 11 pan chwythwyd y corn i nodi dau funud o dawelwch er coffadwriaeth, ond roedd pawb wedi ymddwyn yn unol â rheolau Covid-19.

7. Grŵp Llanberis:

Cafwyd adroddiad gan y Clerc iddo ef a'r Cyngorydd KMJ fynychu dau gyfarfod Zoom/Teams i drafod sut i ymdrin â rhai o broblemau presennol Llanberis sy'n deillio yn bennaf o'r llw ymwelwyr a ddaw yma a'r digwyddiadau a gynhelir ar faes Dôl y Goeden ac mewn mannau eraill. Y bwriad ydi trefnu nifer o is grwpiau i edrych ar wahanol ddigwyddiadau a phroblemau, e.e. digwyddiadau, parcio, masnachu, sicrhau budd economaidd yn ogystal ag ystyried effaith hynny ar y gymdeithas leol.

Bydd Grŵp Llanberis yn cadw trosolwg dros y grwpiau eraill a sefydlwyd neu a sefydlir yn y dyfodol agos. Yn y cyfarfod cyntaf gyda dau o swyddogion CG trafodwyd sut i weithredu ac aelodaeth y Grŵp.

Un grŵp sy'n gweithredu eisoes ydi'r un ar gyfer 'Digwyddiadau', gyda nifer o swyddogion CG, un o Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APCE), nifer yn cynrychioli cwmnïau sy'n trefnu digwyddiadau (rasys rhedeg) mawr ynghyd â KMJ a'r Clerc. Yn y cyfarfod cyntaf cafwyd braslun o bwrpas y grŵp i geisio dod a threfn i'r digwyddiadau niferus yn Llanberis bob blwyddyn ynghyd ag ystyried lle i'w lleoli er mwyn lleihau'r ymyrraeth ar y pentref a'r trigolion lleol a ddaw yn sgil eu cynnal ar Ddôl y Goeden. Mae nifer o'r cwmnïau yn ymwybodol fod cael cefnogaeth leol yn bwysig ac felly yn awyddus i sicrhau nad yw eu digwyddiadau yn ymyrryd yn

ormodol â'r gymuned leol. Mae rhai yn awyddus i gael trefniant hir dymor, er mwyn iddynt gael sicrwydd i'r dyfodol; yn naturiol, byddai hynny'n ddibynnol ar drefnusrwydd. Nodwyd yn y cyfarfod fod dwy ras fawr wedi eu symud o Lanberis, un i Ryd-ddu a'r llall i Gapel Curig.

Yn ôl swyddog Awdurdod y Parc (APCE) mae'n amhosib bron i'r Awdurdod wahardd nac atal pobl a chymdeithasau neu gwmnïau rhag defnyddio'r Wyddfa ar gyfer digwyddiadau. Mae'r llwybrau yn rhai cyhoeddus ac wrth gwrs mae hawl mynediad i 'dir agored' o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawl Tramwy 2000. Ond mae'r Awdurdod yn ceisio gyda chydweithrediad defnyddwyr i reoli'r gwahanol weithgareddau, a dyna sy'n digwydd bellach wrth i bawb bron oedd yn trefnu unrhyw ddigwyddiad gysylltu yn gyntaf â'r Awdurdod. Ychwanegwyd bod y pwysau'n cynyddu yn gyson ac mae hynny cyn cymryd i ystyriaeth y miloedd a ddaw i gerdded i'r copa fel unigolion neu griwiau bychain.

Bydd Grŵp Llanberis yn cyfarfod eto cyn diwedd y flwyddyn a'r un 'Digwyddiadau' yn y flwyddyn newydd.

5 MATERION ERAILL:

1. Gosod Tai:

Unwaith eto cafwyd cwynion am y ffordd y mae tai yn cael eu gosod gan Adre, y cwmni sy'n rheoli tai cyhoeddus ar rent. Yn ddiweddar, dywedir fod pobl sy'n wael neu'n dioddef o gyflyrau anghymdeithasol wedi cael tŷ/fflat yn Lanberis a bod hynny wedi ymyrryd yn ddifrifol â bywydau trigolion cyfagos. Holwyd a oedd Adra yn ystyried holl anghenion pobl oedd yn cael eu lleoli yma yn ogystal ag effaith hynny ar gymdogion agos.

2. Cystadleuaeth Goleuadau Nadolig:

Awgrymodd KMJ y dylem gael cystadleuaeth i weld pa stryd sydd wedi ei goleuo orau ar gyfer y Nadolig. Bu peth trafod a chytunodd KMJ i'w threfnu gyda'r Cyngor yn cynnig gwobr o £100 i'w roi i elusen o ddewis y stryd fuddugol. Bydd y beirniadu trwy gyfrwng pleidleisiau ar Facebook.

6 GOHEBIAETH:

1. CG - Llinellau Melyn:

CG yn ymgynghori ynglŷn â bwriad i osod llinellau melyn dwbl i atal parcio bob ochr i'r ffordd draw o Ffordd Osgoi Llanberis at y pyllau a'r meysydd parcio ar lan Llyn Padarn yn Y Glyn. Bydd y llinellau hyd at yr ail fynedfa i'r ail faes parcio ac yn cynnwys y pwt o ffordd i mewn i'r Stad Ddiwydiannol. Mae'r Cyngor hwn wedi pwyso am hyn ers tro byd, gobeithio y bydd y cynllun yn llwyddo y tro hwn.

NB: Adroddwyd bod 'motor home' wedi parcio yno am ddyddiau yn ddiweddar.

2. APCE:

Hysbyseb fod Cronfa Prosiectau Cymunedol ag arian ar gael i gefnogi cynlluniau cynaliadwy yn y gymuned a fydd o fudd economaidd, cymdeithasol, neu amgylcheddol o fewn y Parc Cenedlaethol. Ni nodwyd dyddiad cau.

7 CYNLLUNIO:

• C20/0821/15/LL - cais ar gyfer dymchwel estyniad cefn (rhannol unllawr a rhannol ddeulawr) a chodi estyniad deulawr yn ei le - 1 Ffordd Padarn, Llanberis - dim sylw (methwyd â darganfod y cais).

8 MATERION ARIANNOL:

1) Yn y Banc ar yr 28ain o Hydref, 2020

Cyfrif Cyfredol: £21,950.12 Cyfrif Cadw: £5,365.74

2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:

CYFANSWM ... £1,144.60

dderbyniwyd rhwng 29/09/2020 a 28/10/2020:

CYFANSWM ...

Cynnig ac eilio: HS / TT.

9 LLWYBRAU

Ystyriwyd adroddiad GE ar y llwybrau a phenderfynwyd fod angen ymdrech arall i ddatrys problem y llwybr oedd wedi ei rwystro ger Pyllau Dŵr. Adroddwyd hefyd fod giât neu ddwy angen eu hongian. Dywedodd y Clerc y byddai'n ceisio cael rhywun i wneud y gwaith. Yn anffodus roedd EB wedi cael llaw driniaeth ar ei ben-glin ac yn debyg o fod yn methu cynorthwyo am rai misoedd.

Mae angen hefyd trwsio giât ar lwybr cyhoeddus heibio Tandderwen, Nantperis.

10 Y FYNWENT:

Adroddwyd nad oedd y giât i Fynwent yr Eglwys ger y Maes Chwarae yn Nantperis yn cau. Er mai cyfrifoldeb yr eglwys ydi'r giât cytunwyd fod y Clerc yn chwilio am rywun i'w thrwsio rhag i ddefaid grwydro yno.

11. ADRODDIADAU ALLANOL:

Y Ganolfan:

Wedi ei hail agor ar ôl y Clo byr oherwydd Covid-19.

12 CYFARFOD NESAF:

Dyddiad y cyfarfod nesaf yn Y Ganolfan os bydd amgylchiadau yn caniatáu. 7 y.h. nos Fercher, 09 Hydref, 2020.

Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos

Dyddiad 11 Tachwedd, 2020.





NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Oddiwrth Dylan a'r staff
SIOP CHIPS TEGFAN
Y SRWÂR LLANRUG
(01286) 671211



O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar yr 20fed o Hydref 2020

Trefniadau Nadolig 2020

Penderfynwyd:

(a) Derbyn argymhelliad y Pwyllgor Hamdden o greu cystadleuaeth ar gyfer y tŷ sydd wedi ei addurno orau ar gyfer y Nadolig, a chynnig gwobr o docyn o siop Wavell's o £30 i'r cyntaf ac £20 i'r ail.

a) (b) Gadael y coed Nadolig yn eu lleoliad presennol am eleni

Cwyn am garafannau yn cael eu tywys o Barc Carafannau Brynteg yn amharu ar drafnidiaeth lleol.

Adroddwyd fod cwyn wedi'i dderbyn am y broblem o symud carafannau o Barc Carafannau Brynteg sydd yn golygu fod y ffordd ar gau ac yn atal trigolion rhag symud o gwmpas.

Mewn ymateb adroddodd y Cyngorydd Berwyn Parry Jones, ei fod wedi bod mewn cysylltiad â rheolwr y safle a bod system ar gael i hysbysu'r cymdogion drwy ebost pryd mae carafannau yn cael eu symud. Gellir cysylltu â'r parc i gofrestru eu e-bost. Adroddwyd ymhellach nad yw symudiadau carafannau i gymryd lle cyn 9:00 yb nac ar ôl 4:00 yp.

Penderfynwyd derbyn a diolch am yr adroddiad ac i'r clerc gysylltu â rheolwr y parc i ofyn iddo gynnwys y Cyngor yn yr e-byst.

Cwyn a dderbyniwyd ynglyn a baw cŵn.

Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am fawr ci rhwng y salon gwallt a'r Co-op. Nodwyd fod prinder biniau cyffredinol oddi fewn i'r ardal.

Penderfynwyd gofyn i swyddog gorfodaeth Gyngor Gwynedd ymweld â'r ardal ac i geisio cael mwy o finiau yn yr ardal ynghyd a threfniadau i'w gwagio.

Diweddariad ar sefyllfa trosglwyddo cyfrifoldeb am fynwent Eglwys Saint Mihangel, Llanrug i'r Cyngor.

Adroddwyd bod cyfarfod arall wedi'i gynnal rhwng aelodau o Bwyllgor y Fynwent a chynrychiolwyr o'r Eglwys. Ymysg y materion a gytunwyd arnynt oedd y byddai'r Cyngor yn cynorthwyo'r Eglwys i chwilio am aseswyr cymwysedig ar gyfer cynnal asesiadau risg ar gyfer y fynwent. Nodwyd ymhellach fod y clerc wedi bod mewn cysylltiad â'r ICCM, sef y corff proffesiynol sydd yn cynrychioli gweinyddwyr mynwentydd ac fod pris o £2,000 +TAW wedi amcangyfrif ar gyfer cynnal asesiad risg llawn o fynwentydd yr Eglwys a'r Cyngor. Cytunwyd y byddai'r gost yma yn cael ei rannu rhwng yr Eglwys a'r Cyngor oherwydd roedd y nifer o feddi yn eithaf agos.

Diolchwyd i gynrychiolwyr yr Eglwys am y gwaith da 'roeddynt wedi ei wneud yn y fynwent hyd yma.

Adroddwyd fod popeth yn ei le gan yr Eglwys ar gyfer rhyddhau arian ar gyfer cynnal yr asesiad.

Nodwyd ymhellach fod y wal ar y ffordd i'r fynwent angen sylw.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad ac i gadw mewn cysylltiad â'r Eglwys. Adroddwyd fod yr asesiad risg wedi ei ohirio ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa ar glo yng Nghymru a'r ffaith y byddai'r asesydd yn trafaelio o ganol Manceinion. Ar hyn o bryd does dim syniad pryd y gellir cynnal yr asesiad ond bydd yn cael ei wneud cyn gynted ag y bydd amgylchiadau'n caniatau.

Tendrau a dderbyniwyd am waith coed yn Cwm y Glo

Adroddwyd fod tri tendr wedi eu derbyn am y gwaith o dorri coed o amgylch cae chwarae a parc sglerio Cwm y Glo a bod manylion y prisiau eisoes wedi eu hanfon i'r aelodau.

Penderfynwyd: Yn seiliedig ar y prisiau a dderbyniwyd a manylion y gwaith penderfynwyd gwneud yr holl waith a adnabyddwyd yn yr asesiad risg. Penderfynwyd rhoi'r gwaith i'r tendr isaf ond cydnabyddwyd fod y contractwr wedi gwneud gwaith blaenorol i'r cyngor ac roedd y gwaith o'r safon uchaf

Cwyn a dderbyniwyd parthed parcio ar Ffordd Glanffynnon

Adroddwyd fod cwyn wedi dderbyn am drefniadau parcio wrth ymyl mynedfa gefn yr ysgol gynradd. Adroddwyd fod ceir yn parcio ar y llinellau 'zig zag' melyn ac yn atal trigolion rhag mynd at eu tai.

Penderfynwyd i adrodd am y broblem i'r gwasanaeth Prifffyrdd a chael y swyddog gorfodaeth i ymweld ar adegau danfon a chasglu'r plant i'r ysgol ac i gysylltu â'r ysgol i'w hysbysu o gwynion sydd wedi eu derbyn. Hefyd bydd cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol yr Ysgol yn dwyn y mater gerbron y bwrdd.

Adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones

Cynllun Fairshare.

Elusen yw Fairshare sy'n dosbarthu bwyd wedi ei roi gan archfarchnadoedd ar gyfer y rhai sydd ei angen. Adroddwyd fod y cynllun yn bodoli ym Mangor a Chaernarfon a byddai'r bwyd yn cael ei anfon i Fangor ac yna ei gasglu a'i rannu yn Llanrug a Chwmyglo. Adroddwyd nad oedd yn rhaid i Llanrug wneud y gwaith pe na byddai dymuniad am y gwasanaeth a gall dynnu allan ar unrhyw adeg.

Penderfynwyd i dderbyn a diolch am yr adroddiad a chytunwyd i arwyddo mewn i'r cynllun ac wedyn ystyried sut mae'r cynllun yn datblygu

Addysg plant dros 16

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i ddechrau'r broses o ymgynghori ar addysg ôl 16 yn Arfon. Maent wedi cynnal amryw o gyfarfodydd efo penaethiaid yr ysgolion sydd yn cael eu heffeithio, Cyngorwyr Sir Arfon a'r Corff Llywodraethu. Maent yn pwysleisio nad oes cynlluniau ganddynt ond maent eisiau cael barn pawb rhwng Tachwedd ac Rhagfyr. Mae peth brys oherwydd maent wedi sicrhau grant rhag ofn bydd angen adeiladau newydd, ac mae cyfnod y grant yn dod i ben yn 2025.

Cynllunio

Mae Cyngor Gwynedd eisiau ymgynghori ar ddau ganllaw cynllunio atodol sydd wedi'i greu, sef:-

Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid a newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu

Ceir wedi ei gadael

Nid yw'n bosib symud un o'r ceir sydd ar y ffordd yn ymyl y skatepark oherwydd fod trwydded MOT arno tan ddiwedd Hydref. Os na fydd o ddim wedi mynd ar ôl hyn, mae posib gwneud mwy.

Adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent

Adroddwyd fod bedd wedi suddo rhywfaint yn y fynwent a bwriedir cysylltu â'r teulu i'w hysbysu o hyn.

Adroddiad gan bwyllgor Hamdden a Mwynderau

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg y materion a drafodwyd ac a benderfynwyd arnynt oedd:

a) Cadw'r coed Nadolig ble maent ar gyfer Nadolig 2020;

b) Adroddwyd fod y broblem gyda'r trydan ar goeden Cwm y Glo wedi'i datrys;

c) Fod cystadleuaeth addurno tŷ ar gyfer y Nadolig yn cael ei greu gyda gwobr 1af o £30 ac £20 o wobwr ar gyfer yr ail. Y rhain i fod yn dalebau cig o siop Wavell's Llanrug a bod hysbyseb yn mynd allan ar gyfrif Facebook y Cyngor i hysbysebu'r gystadleuaeth;

d) Fod panel wedi'i ddewis i benderfynu ar enillydd y gystadleuaeth.

Adroddwyd hefyd fod galw am ddiwrnod casglu ysbwriel ond oherwydd yr amgylchiadau presennol nodwyd efallai na fydd hyn yn bosib. Adroddodd y Cadeirydd y byddai yn cysylltu â Cadw Cymru'n Daclus, i holi os oes asesiad risg wedi ei baratoi ganddynt ar gyfer y math yma o weithgaredd, yn yr awyrgylch presennol.

Adroddwyd ymhellach byddai'r Cadeirydd yn edrych mewn i sefyllfa 'Pat Testing' y

goleuadau Nadolig. Gobeithir eu rhoi mlaen ar y 1af o Rhagfyr.

Holiadur ar gyfer ymgysylltu a'r gymuned.

Adroddwyd ein bod wedi edrych i fewn i'r posibilrwydd o gynnal arolwg o ddymuniadau'r gymuned er mwyn galluogi'r cyngor greu strategaeth ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn yn ein helpu i greu nodau ac amcanion cadarn, yn seiliedig ar ddyheadau'r trigolion. Ystyriwyd sawl opsiwn o gynnal yr arolwg, naill ai ar lein, drwy Facebook ayyb ond penderfynwyd byddai hyn o bosib yn amddifadu nifer o drigolion rhag gallu cymryd rhan yn yr arolwg, ac na fyddai'r canlyniadau yn adlewyrchiad teg o'r gymdeithas leol. Adroddodd y clerc ei fod wedi creu sgerbwd o holiadur a bydd yn ei rannu am sylwadau maes o law ond yn y cyfamser wedi derbyn pris gan yr argraffwyr am wneud y gwaith o'i bostio i bob cartref yn y gymuned. Penderfynwyd i symud ymlaen â'r arolwg a derbyn y prisiau am gyflawni'r gwaith

Cynllun ar gyfer anrhydeddu unigolion sydd wedi gwasanaethu'r gymuned.

Penderfynwyd peidio creu Cronfa Cadeirydd a bod y Cyngor yn ystyried ffyrdd eraill i anrhydeddu unigolion.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR

ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Ro'n i'n crafu pen tipyn wrth gysidro be sydd wedi bod yn mynd ymlaen bron drwy'r flwyddyn, ond diolch i'r drefn rydym oll i weld wedi dal ein gafael yn ein iechyd, hynny yw o'i gymharu â be sydd yn mynd ymlaen mewn llawer i ardal yng Nghymru. Er hyn i gyd, cyn belled ag mae'r Gymdeithas Bysgota yn y cwestiwn mae pethau wedi troi allan yn well na'r disgwyl; hynny yw rydym wedi medru dal ein pennau uwchben y dŵr gyda thaliadau rhent a gwahanol oblygiadau eraill fel yswiriant, costau tynnu dŵr i'r ddeorfa a'r stocio wedi eu gwneud. Un rhan o weithgareddau'r clwb sydd wedi arafu yw ein llety hunan gynhaliol ym Melin y Cim, Pontllyfni. Dyma'r ffynhonnell ariannol sydd wedi ein galluogi i gynllunio am y dyfodol i wella ein dyfroedd ac, wrth gwrs, rhoi hyder i ni fentro mwy i'r byd twristiaeth. Hynny yw hyd nes i Covid orfod cau y lle i lawr am fisoedd. Llif incwm i lawr bron dri-chwarter, a heb gymorth Cyngor Gwynedd gyda'r grantiau i'r byd lletygarwch mi fuasai wedi bod yn ddu iawn arnom.

Rhaid peidio digalonni gormod, er y siomedigaeth gyda busnes y felin, rydym yn ffodus dros ben fod yr ochr bysgodfaol o'r Gymdeithas wedi gwneud yn llawer gwell na'r disgwyl. Hyn, o bosib, gan bod rhan helaeth o'r boblogaeth wedi bod yn gaeth i'w hardaloedd lleol am gyfnod hir lleol (wel, rhai beth bynnag!) ac yn methu teithio rhyw lawer allan o'u milltir sgwâr; mae'r gefnogaeth wedi bod yn eithriadol, diolch i chwi oll.

Ond nid yw hyn wedi bod yn fêl i gyd oherwydd y camddealltwriaeth gyda hawliau Llyn Padarn. Mae'r storm yna i weld wedi gostegu a phawb yn cyd-fyw yn weddol gytun. Wel, ar hyn o bryd prun bynnag! Ond at y sgota. Pwy fuasai'n dychmygu y nifer o eogiaid a gwyniadau oedd yn y Seiont, a thrwy hyn bu pysgota eithriadol drwy'r haf at ddiwedd Medi. Yr unig ddirgelwch yw nad yw rhediadau'r eog Hydref/Tachwedd wedi digwydd eleni. Pam? Wel, efallai bod yr ateb yn dod drwy astudiaethau o'r Alban, ble mae tystiolaeth bod rhediadau'r eog i'n afonydd fel cylch – a bod rhediadau yn sefydlu eu hunain fwy fwy yn y gwanwyn a'r haf. Dwi wedi bod o gwmpas ddigon hir i allu rhoi tipyn o sail i hyn. Dwi'n cofio'n iawn y sgwrsio fyddai am eogiaid yn cael eu bachu ar byllau fel Engan a Distaw yng ngwaelod yr afon a'r Rheud, Llanrug, yn ystod Ebrill a Mai, hyn 50 mlynedd yn ôl. Y cyntaf a farchais i ar y Seiont oedd ar ddechrau Gorffennaf bron i 40 mlynedd yn ôl. Ond yn raddol mynd yn hwyrach wnaeth y rhediadau, gyda'r ugain mlynedd diwethaf wedi gweld y daliadau wedi symud dros fisoedd Medi a Hydref. Wel dyna ni, gobeithio bod hyn i barhau, mae'n brafiach o lawer bod ar yr afon yn llewys eich crys nag mewn 'top coat'.

Mater arall sydd wedi codi ein calonau yw'r gwyniadau sydd wedi amlygu eu hunain eleni – a rhai mawr hefyd. Dyma dystiolaeth bendant fod pethau yn gwella yn gyflym fel mae dyfroedd Padarn yn glanhau, ond cofiwch rhaid bod yn wyladwrs i hyn allu parhau. Gadewch i ni wybod ar eich union os oes gennych unrhyw amheuaeth fod rhywbeth o'i le drwy ffonio 0300 065 3000.

Gan fod y Pwyllgor Blyneddol eleni wedi ei ganslo, mae trefniadau i gyflwyno'r tlysau yn y ddeorfa cyn y Nadolig. Fel hyn y bydd hi eleni: Tlws Tomi Lovell i'r aelod sydd wedi gweithredu fwyaf ar ran y Gymdeithas dros 2020 – Tony Brown, Y Waunfawr. Tarian W.J. Williams am yr eog trymaf – Dr Robin Parry, Llanberis, un 12 pwys o'r Seiont. Tarian J.Vyrnwy Evans am y gwyniedyn trymaf – Ian Williams, Llanberis, un 10 pwys o'r Seiont. Tarian Garmon (Oscar Evans) am y pysgodyn trymaf i aelod dan 18 oed – Ianto Dafydd, Y Waunfawr – brithyll brown 5 pwys o Lyn y Dywarchen. Mae Llanberis a'r Waunfawr wedi sgubo'r bwrdd eleni. Da de!

Pleser yw troi at fy ffefryn, sef y torgoch. Mae'r rhod wedi troi yn y fan hyn diolch i'r drefn, a chadarnhad o hyn yw'r ffaith ei bod wedi dechrau ail gynefino ei mannau claddu o fewn Padarn, llefydd fel

tennau Pen Llyn. Mae gwaith ar astudio'r torgoch wedi bod yn mynd ymlaen dros y tair blynedd diwethaf gan Antony Smith o Brifysgol Bangor. Ddechrau'r flwyddyn roedd amheuaeth bod y torgoch wedi dechrau bwrw grawn unwaith eto ym Mhen Llyn. Daeth cadarnhad o hyn pan ddeorwyd y grawn.

Dw i ar ddeall y bydd Antony yn cael golwg ar aberoedd Afon Las a'r Goch dros yr wythnosau nesaf.

Mae'r cynllun stocio i barhau – mae oddeutu 10,000 wedi eu gollwng i'r llyn yn ystod Hydref a chanol Tachwedd. Diolch o galon i Walter Hanks o Gyfoeth Naturiol Cymru am ei waith gyda'r cynllun. Oherwydd cyfyngiadau'r Covid 'ma, ni fydd grawn yn cael ei gasglu eleni, ond mi fydd y cynllun yn ail gydiad ynddi yn ystod Rhagfyr 2021. Mae ysgolion Dolbadarn, Llanrug a Deiniolen wedi bod ynghlwm â'r cynllun. Oes ysgol arall yn y dalgylch â diddordeb?

Yr unig fater negatif ynglŷn â'r cynllun adfywio yw y llusgo traed sydd gan gwmni Gorsaf Hydro Dinorwig. Maent wedi addo ail ddylunio Afon y Bala fel ei bod yn fwy addas i'r pysgodyn hardd yma i frwr grawn – ond mae'r addewid yn cael ei ohirio o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n rhyw bedair blynedd yn hwyr fel ag y mae hi. A dyma gwmni sydd i fod i gydweithio'n gyda mudiadau lleol – a gwarchod yr amgylchedd, addewidion gwag mae gennyf ofn.

Be sydd ar y gweill? Wel gobeithio'n wir bydd rhyw reolaeth yn dod ar Ben Llyn, gan fod y lle wedi bod fel traeth Dinas Dinlle ar ddiwrnod braf. Mae hi yn ofnadwy yno hyd yn oed heb i'r haul ddangos ei wyneb! Dwi erioed wedi gweld y lle fel hyn. Mewn gwirionedd does dim lle i barcio beic yno, mor boblogaidd ydi'r lle gyda hwyl fyrrddio, canwio a nofio, pleserau sydd yn goresgyn pysgota mewn poblogrwydd. Dim rhyfedd, gan nad oes lle i bysgota yno oherwydd yr holl ymwelwyr. Dywedodd un o Lerpwl wrthyf mai dyma'r unig le iddynt allu dod – dim ots am y clo mawr – pan nad oes eisiau talu am barcio na defnyddio'r dyfroedd. Sut goblyn felly ein bod ni fel Cymdeithas leol yn gorfod talu i Gyngor Gwynedd am gael roi cwch sgota ar ochr Llanberis i'r llyn? Ond dim yn unig ym Mhen Llyn mae'r broblem yn bodoli, mae Llanberis ei hun wedi bod yn gorlifo efo ymwelwyr, mae un peth yn sicr dydi'r Gymdeithas ddim wedi elwa dim o'r holl orlifiad.

Rwyf wedi adrodd o'r blaen ein bod yn awyddus i ddacluso ein tir

a hwyluso pethau i'n aelodau ym Mhen Llyn drwy gael storfa newydd i'r cychod, ac rydym yn dal i ddisgwyl penderfyniad y Cyngor ar hyn. A chyn i neb holi – mae gan y Clwb ddigon o le i barcio oddi ar y ffordd!

Drwy gau fy nodiadau am y flwyddyn, hoffwn ddiolch am y gefnogaeth i'r Clwb dros y misoedd anodd yma, a hefyd i minnau yn bersonol dros y misoedd pan oeddwn ar fy maglau, ond dwi'n iawn rŵan. 'Fy maglau wedi'u torri, a'm traed yn gwbwl rydd.' Mi fydd yn rhaid i'r pysgod fod yn ofalus y tymor nesaf!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

Huw Price Hughes



Dringo rwan gwaith wedyn

*Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Llawer
Gwell i Bawb Ohonoch*

Oddiwrth pawb yn



www.dmmwales.com



Chweched Dosbarth Ysgol Brynrefail dan fygythiad

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd i glywed barn disgyblion, teuluoedd, staff ysgolion a chymunedau am addysg pobl ifanc dros 16 oed yn Arfon. Y cwestiwn ydi sut y gellid cynnig y cyfleoedd gorau i bobl ifanc yr ardal.

Ond mae pryder ymysg rhai y gallai hyn arwain at greu coleg trydyddol yn yr ardal a chau chweched dosbarth ysgolion Arfon, gan gynnwys chweched Ysgol Brynrefail. Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 22 Rhagfyr.

Meddai Garem Jackson, Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd: "Does dim newid sylweddol wedi bod ym mhattrwm addysg ôl-16 yn ardal Arfon ers peth amser. Gyda thirlun addysg ôl-16 yn newid ar draws Cymru, mae'n amserol felly i ni gymryd cam yn ôl, er mwyn gweld os ydi'r sefyllfa bresennol yn ateb anghenion ein pobl ifanc yn llawn.

Eco'r Wyddfa'n mynychu cyfarfod cyhoeddus

Fe aeth gohebydd Eco'r Wyddfa i gyfarfod cyhoeddus dros Zoom wedi ei drefnu gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd i glywed mwy. Pwysleisiodd Garem Jackson yn y cyfarfod, nad oedd unrhyw gynlluniau wedi eu gwneud hyd yma, ond bod y Cyngor wedi gwneud cais am grant Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain am £18 miliwn ar gyfer campws, rhag ofn mai coleg trydyddol fyddai'r dewis.

Esboniodd Mr Jackson bod cyflogwyr gogledd Cymru yn chwilio am sgiliau a chymwysterau nad ydynt yn cael eu darparu bob amser gan y system addysg ôl-16 bresennol. "Mae disgwyliadau cyflogwyr yn newid, gyda llawer mwy o bwyslais ar feysydd fel gwasanaethau digidol, y sector ynni gwyrdd a bywyd ac amaeth. Mi fydd felly yn hanfodol bod y gyfundrefn addysg ôl-16 i'r dyfodol yn paratoi ein pobl ifanc ar gyfer y cyfleoedd fydd yn deillio o'r holl sectorau craidd."

Adran Addysg Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am gyrsiau Safon Uwch, gyda Choleg Llandrillo Menai yn rheoli cymhwysterau eraill, gan gynnwys sgiliau galwedigaethol. Doedd Mr Jackson ddim wedi trafod gyda Choleg Llandrillo Menai eto meddai, ond roedd yn awyddus i fuddsoddi mewn offer i gynnig cyfleoedd gwell i ddisgyblion mewn meysydd newydd.

Roedd y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams, deilydd portffolio addysg Cyngor Gwynedd, yn pryderu nad oedd pobl ifanc ym mhob ardal yn cael yr un cyfleoedd a safon o addysg o bosib, a bod angen ystyried sut orau i dacio hyn. Roedd yn erfyn ar bobl i beidio bod yn blwyfol wrth ystyried y mater. Hoffai'r gohebydd hwn fentro awgrymu, mai cynnig mwy o gefnogaeth a chymorth i'r ardaloedd hynny sydd angen gwella yw'r dull gorau o newid y sefyllfa.

Cwestiynau

Derbyniodd Ysgol Brynrefail Gydabyddiaeth o Ragoriaeth mewn

Addysg a Hyfforddiant gan Estyn yn dilyn yr arolwg o'r ysgol yn mis Chwefror eleni ac yn ôl yr Arolygwr, "Yn y chweched dosbarth, mae cyfran y disgyblion sydd yn cwblhau eu cyrsiau yn nodwedd gadarnhaol ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol." A yw'n ddilys holi felly pam bod angen newid?

Mae Ysgol Brynrefail yn cynnig dewis o 12 pwnc Safon Uwch, gan gynnwys y pynciau craidd. Mae hefyd yn rhan o gonsortium gydag ysgolion uwchradd Arfon, Môn a Choleg Llandrillo Menai sy'n darparu dewis o hyd at 20 o gyrsiau Safon Uwch a BTEC ychwanegol i ddysgwyr. Lleihau'r angen i gludo disgyblion i safleoedd gwahanol yw un o gymhellion yr Adran Addysg, ond wrth gwrs petai'r ddarpariaeth yn cael ei ganoli, byddai bron pob disgybl yn teithio o'i ardal.

Cafwyd cyfle i holi cwestiynau yn y cyfarfod agored, a'r cwestiwn cyntaf a ofynwyd oedd sut mae canlyniadau Lefel A Coleg Meirion Dwyfor, coleg trydyddol presennol Gwynedd, yn cymharu gydag ysgolion uwchradd Arfon. Doedd y Pennaeth Addysg ddim yn gallu ateb y cwestiwn; esboniodd ei fod yn ddarlun cymhleth ac yn anodd cymharu'r ystadegau.

Pryder arall a leiswyd oedd effaith cau chweched dosbarth ar ysgolion ac ar gymunedau. Pwysleisiodd Mr Jackson nad oedd penderfyniad wedi ei wneud i godi coleg trydyddol a phetai hynny'n digwydd, y byddai'r ysgolion yn derbyn cefnogaeth y Cyngor.

Holwyd am swyddi staff, a fyddai swyddi presennol yn cael eu diogelu, ac yn y tymor hir sut byddai ysgolion yn gallu denu athrawon o'r safon gorau heb apêl dysgu Lefel A?

Roedd awydd i wella'r gefnogaeth llesiant i ddisgyblion ymysg blaenoriaethau'r Adran Addysg. Ond un o agweddau o ragoriaeth Ysgol Brynrefail a nodwyd gan Estyn yn Chwefror 2020 oedd llesiant a gofal, cymorth ac arweiniad: "mae agweddau at ddysgu a lles y disgyblion yn eithriadol". Mae Ysgol Brynrefail yn gymuned glos a gofalgwr gyda staff ac athrawon sy'n adnabod y disgyblion er pan maen nhw'n 11 oed ac yn gwneud eu gorau drostynt.

Yr Iaith Gymraeg

Ymysg rhagoriaethau Ysgol Brynrefail a nodwyd gan Estyn yn Chwefror 2020, roedd agwedd gadarnhaol disgyblion at dreftadaeth eu hardal a'r iaith Gymraeg: "Nodwedd gref yw balchder y disgyblion yn eu hetifeddiaeth a'u cymuned leol. Mae bron pob disgybl yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn ymhyfyryd yn y ffaith eu bod yn medru siarad Gymraeg." Mae'r chweched dosbarth yn allweddol wrth feithrin yr ymdeimlad hwn wrth iddynt arwain gweithgareddau o fewn yr ysgol a dysgu sgiliau bywyd pwysig drwy hynny. Sut fyddai'r Adran Addysg yn cynnal Cymreictod y bobl ifanc hyn mewn coleg chweched dosbarth gyda dylanwad Ysgol Friars ac ati?

Hefyd, a oes astudiaeth wedi ei gwneud o effaith cau chweched dosbarth ysgolion Dwyfor a Meirionnydd ar y Gymraeg fel iaith cymunedau? Sut byddai Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn mynd ati i liniaru'r effaith andwyol gallai dileu chweched dosbarth o ysgolion fel Ysgol Brynrefail, Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Dyffryn Nantlle ei gael ar Gymreictod yr ardaloedd hyn, sydd ymhlith unig gadarnleoedd yr iaith Gymraeg?

Fe fyddai'n wych gweld buddsoddiad mewn adnoddau i holl ysgolion uwchradd Gwynedd, fel bod disgyblion Lefel A a iau yn cael budd o'r adnoddau dysgu gorau posib. Y cwestiwn pwysig i'w holi yw a ddylai hyn ddigwydd ar draul ein hysgolion? Chwedl Arthur Picton, 'Dim ffiars o beryg'.

Mae rhagor o fanylion am y broses ymgysylltu anffurfiol, gan gynnwys sut i gyflwyno sylwadau i'w gweld ar www.gwynedd.llyw.cymru/ol16arfon - Dyddiad cau anfon sylwadau yw 22 Rhagfyr 2020

Blwyddyn wahanol

a gwahoddiad i Oedfa Bore'r Nadolig

John Pritchard, Llanberis

Dros y naw mis diwethaf mae'r pandemig Covid-19 wedi gorfodi busnesau a sefydliadau i weithredu mewn ffordd wahanol. Mae'r capeli a'r eglwysi wedi gorfod gwneud hynny hefyd.

Ddechrau mis Mawrth, cefais gais gan ffrind i recordio pregeth ar gyfer gwefan un o'r enwadau. Roedd eisiau dod ataf i'r Capel i recordio: dim ond fo a'i gamera. Fedrwn i ddim dychmygu pregethu o flaen camera mewn capel gwag, a gwrthod a wnes i.

Ac yna, daeth y Cloi Mewn. Y peth cyntaf y meddyliodd aelodau Capel Tanycoed, Llanrug amdano o ddeall na fyddai modd cael oedfaon yn y Capel oedd gwahodd y pregethwyr oedd i bregethu yno i recordio oedfa ar gyfer y we. Gan fy mod yno ddwywaith y mis, doedd dim dewis ond gwneud yr hyn y gwrthodais ei wneud lai na mis cyn hynny! Ers hynny, felly, rwyf wedi bod yn pregethu yn stafell fyw fy nghartref; ac ers yr haf mae bron pawb wedi cadw ei gyhoeddiad yn y Capel trwy recordio oedfa ar gyfer sianel Youtube 'Capel Tanycoed'. Mae'r aelodau hefyd wedi defnyddio Zoom i gynnal y Cyfarfod Gweddi ar nos Sul a'r Seiat ar nos lau ers mis Ebrill. Ac er nad yw pawb yn medru ymuno â ni, mae wedi bod yn ffordd werthfawr o barhau'r gwaith a chynnal cymdeithas yr eglwys.

Yn amlwg, ar ddechrau'r Cloi Mewn roedd miloedd o bobl yn yr un cwch â mi, yn ceisio dygymod â thechnoleg a oedd yn ddieithr iddynt; ac am rai wythnosau doedd dim modd prynu tripod i ddal

i-pad neu gamera. Roedd y bwrdd smwddio a llyfrau a thuniau pwddin reis yn rhan o gyfarpar fy 'stiwdio' am sbel!

Dan arweiniad Susan Williams, Cynllun Efe, mae Capel Coch wedi cynnal Ysgol Sul bob bore Sul trwy gyfrwng Zoom ers dechrau Ebrill; ac ym mis Medi mi wahoddwyd eraill i ymuno â ni fel 'Ysgol Sul Ardal Eco'r Wyddfa' am 11.45 o'r gloch ar fore Sul. Cynhaliwyd CIC (ar gyfer yr ieuencid) bob pythefnos am rai misoedd trwy Zoom; a gobeithiwn ddal ymlaen i'w gynnal, er yn llai aml.

Ers mis Hydref, mae Oedfa'r Ofalaeth yn cael ei chynnal bob nos Sul am 5.00 o'r gloch trwy Zoom, a chan fod amryw o gapeli heb oedfa ar hyn o bryd, mae'n braf gweld aelodau o eglwysi eraill yn ymuno â ni. Mae croeso i unrhyw un arall wneud hynny.

Ar wahân i oedfa bob pythefnos yn Capel Coch ac un oedfa'r mis yn Nhalybont, ni fu'n bosibl ail ddechrau oedfaon yng nghapeli'r Ofalaeth. Y gofid mwyaf yw na fedr llawer o'n haelodau ffyddlon fanteisio ar y ddarpariaeth ddigidol. Ond daliwyd i gyhoeddi'r daflen wythnosol Gronyn; a gobeithio bod y braslun o oedfa sydd yn honno o ryw fudd.

Bydd gennym oedfa ar Zoom am 10.00 o'r gloch fore Nadolig, ac mae croeso i unrhyw un ymuno â ni. Anfonwch e-bost ataf - john.cilfynydd@btinternet.com - i gael y ddolen Zoom i'r oedfa honno, neu i Oedfa'r Ofalaeth ar nos Sul, neu i'r Ysgol Sul.

Hunangofiant Glyn Tomos



Deffro i Fore Gwahanol Golygydd: Osian Owen

Gwir y dywed y broliant ar gefn y gyfrol fod ei hawdur 'yn ddyn y mae parch mawr iddo fel gŵr a daliadau cryf am ddyfodol Cymru a'r bröydd Cymraeg, ac angerdd am ein bywyd cymunedol a cherddoriaeth Gymraeg'.

Mae'n anodd credu fod Glyn Tomos yn byw yn nhref Caernarfon ers dwy flynedd ar hugain gan mai â Dinorwig y mae llawer o'i gydnabod yn dal i'w gysylltu. Yn y pentref hwnnw y cafodd ei fagu, ac ar wahân i'w flynyddoedd coleg yno y bu'n byw nes iddo symud i'r Dre. Ac yn yr hunangofiant hwn, trwy'r atgofion am ei fagwrfa yn Ninorwig ceir darlun hynod o ddifyr am fywyd plentyn ym mhumdegau a chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Ond mwy na hynny, ceir darlun byw iawn o'r gymdeithas y magwyd ef ynddi a'i chefnidir chwarelyddol, gyda lle canolog yn y stori i'w fagwrfa yn Eglwys Santes Fair yn y pentref. Y mae i'r Eglwys honno le amlwg yn y stori. Wedi gadael ysgol a dechrau gweithio, aeth i Goleg Harlech ac i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor, gan fwrriadu bod yn offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru. Roedd blynyddoedd coleg yn gyfnod o ymgyrchu o blaid y Gymraeg, a bydd ei atgofion am y protestiadau ym Mangor a arweiniodd at iddo gael ei ddiarddel o'r Brifysgol yn dod â'r cyfnod hwnnw'n fyw iawn i bawb sy'n cofio'r digwyddiadau cythryblus. Mae ei enw'n annatod gysylltiedig â'r ymgyrchu ym Mangor, ond hefyd â'r byd pop Cymraeg gan mai fo a fu'n olygydd ac yn bennaf cyfrifol am y cylchgrawn Sgrech a 'Nosweithiau Sgrech' am flynyddoedd. Wedi ymsefydlu yng Nghaernarfon, sefydlodd Papur Dre; ac ugain mlynedd yn ddiweddarach mae'n parhau yn un o'i olygyddion.

Yn y Rhagair i'r gyfrol, dywed mai'r cymhelliad i adrodd ei stori oedd yr awydd i'w ferch Alis gael gwybod am gefndir ei thad. O ddarllen y gyfrol caiff y darllenwyr hwythau olwg ar gymdeithas Gymraeg bro ei febyd a dealltwriaeth o'r graig y'i naddwyd ohoni; a'r cyfan mewn cyfrol sy'n rhwydd i'w darllen.

Un peth sy'n nodweddu'r dweud yw gostyngeddrwydd yr awdur. Mae Glyn Tomos wedi gwneud cyfraniad o bwys i fywyd ei fro a'i wlad. Fwy nag unwaith, fe gostiodd y cyfraniad hwnnw'n ddrud iddo. Ond nid oes unrhyw rwysg nac ymffrost yn perthyn i'r dweud: adrodd y stori'n gynnil a gwrthrychol a wna, heb unrhyw ymdrech i'w ganmol ei hun am y cyfraniad gwerthfawr a wnaeth mewn mwy nag un maes. Ond bydd prynwyr a darllenwyr y gyfrol yn ymwybodol o'r cyfraniad hwnnw, ac yn ddiolchgar amdano.

Mae cyfraniad Glyn Tomos yn enfawr i fywyd ei fro a'i wlad. Ond tybed a allasai fod yn fwy fyth? Daeth y gobeithion am fod yn offeiriad i ben wedi cyfnod byr iawn yng nghanol Seisnigrwydd Coleg yr Eglwys yng Nghymru yn Llandaf. Roedd warden y Coleg ar y pryd yn amheus o addasrwydd y darpar offeiriad o Gymro da o Ddinorwig i'r gwaith; a throi i faes arall fu hanes Glyn. O ddeall yn y gyfrol hon fod y warden hwnnw'n ddiweddarach wedi datgan na fyddai rhyw greadur o'r enw Justin Welby yn addas fel offeiriad chwaith, pwy a wŷr nad hunangofiant esgob neu archesgob fyddai Deffro i Fywyd Gwahanol oni bai am ddiffyg crebwyll a gwerthfawrogiad y warden hwnnw o'r diwylliant a'r dreftadaeth a'r iaith a wnaeth Glyn Tomos y dyn ag ydyw?

Cyhoeddir y gyfrol gan Wasg Carreg Gwalch. Pris £8.50; ar werth ym mhob siop lyfrau Cymraeg.

Cefnogi Busnesau Lleol dros y 'Dolig



Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd y Nadolig hwn

Mae Cyngor Gwynedd yn annog pobl y sir i gefnogi ein siopau stryd fawr a busnesau lleol y Nadolig hwn. Bu 2020 yn flywyddyn anodd i'r gymuned fusnes oherwydd effeithiau Covid-19, ac mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yr ymgyrch, yn y cyfnod yn arwain at yr Wyl yn rhoi hwb i gwmnïau a busnesau Gwynedd.

"Cynhelir ymgyrch ar y gwefannau cymdeithasol gan Gyngor Gwynedd i annog pobl i gefnogi eu siopau lleol y Nadolig hwn. Fel rhan o'r ymgyrch, bydd gwybodaeth am lu o fusnesau lleol Gwynedd sydd yn darparu gwasaneth dros y we i'w gweld ar wefan www.bit.ly/prynulleol2020. Rydym fel Cyngor yn annog unrhyw gwmni sydd heb gofrestru eu manylion i fanteisio ar y cyfle i wneud hynny, gynted â phosib, er mwyn elwa ar yr ymgyrch siopa Nadolig. Gall busnesau sydd am gael ei ychwanegu i'r rhestr siopa, gysylltu â twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru i wneud hynny."

Gwario'r Bunt yn Lleol

Ymgyrch arall yn agosach at adref yw Gwario'r Bunt yn Lleol. Ymgyrch ydyw i gefnogi busnesau lleol sydd wedi dioddef yn ystod y cyfnod clo eleni a chyfrannu i elusennau a grwpiau lleol ar yr un pryd.

Cafodd ymgyrch Gwario'r Bunt yn Lleol ei greu gan Anest Parker-Jones a Sasha Williams, dwy yn wreiddiol o Fethel. Mae Anest a Sasha wedi bod yn rhan o bwyllgorau ac yn aelodau gweithgar yn y gymuned ers tro, gan gynnal gweithgareddau codi arian niferus. Ond, oherwydd Covid-19, roedd yn amhosib cynnal y gweithgareddau arferol i godi'r arian y mae'r clybiau ac elusennau yn dibynnu arno yn flynyddol.

Mae raffl ar-lein Gwario'r Bunt yn Lleol yn cefnogi busnesau lleol drwy brynu cynnyrch lleol, ac yn codi arian gan godi ffi am rif ar hap. Mi fydd elw'r raffl yn cael ei roi i elusen leol. Yn ôl y trefnwyr mae'r gefnogaeth hyd yma wedi bod yn ardderchog a dywedent ei fod "yn ffrainc gallu cefnogi busnesau lleol sydd wedi bod mor gefnogol o grwpiau ac elusennau yn flynyddol drwy roi ambell beth at raffl a noddi timau pêl-droed. Mae'n ffordd o gefnogi pawb a chadw'r bunt yn lleol!"

Hyd yma mae'r ymgyrch wedi gwario £1000 o bunnoedd mewn amryw o siopau a busnesau lleol sydd wedi bod yn gefnogol iawn drwy roi cynnyrch am brisiau gostyngol. Mae £700 wedi ei roi i elusennau hyd yn hyn, gan gynnwys; Ysgol Gynradd Bethel, Apêl Nadolig GISDA, Clwb pêl-droed Bethel a Ward Y Plant Ysbyty Gwynedd (Awyr Las).

Ymunwch â'r ymgyrch drwy dudalen Facebook Gwario'r Bunt yn Lleol.

Parcio am ddim

I gefnogi'r ymgyrch siopa Nadolig lleol, mae'r Cyngor yn darparu parcio am ddim ym meysydd parcio'r Cyngor o 12 tan 27 Rhagfyr.

Meddai'r Cyngorydd Gareth Griffith, Aelod Cabinet Amgylchedd Gwynedd:

"Rydym yn falch o gynnig parcio am ddim unwaith eto ym meysydd parcio'r Cyngor yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Gobeithio y bydd pobl Gwynedd yn gwneud y mwyaf o'r cynnig i gefnogi busnesau stryd fawr y sir. "Trwy siopa'n lleol, yn hytrach na theithio am oriau, rydych yn helpu'r economi leol, yn amddiffyn ein amgylchedd ac yn rhoi mwy o amser i fwynhau'r Wyl efo teulu."

Nodyn:

Bydd y cynllun parcio am ddim ar waith ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd. Bydd arwydd ar bob peiriant talu ac arddangos ym meysydd parcio cyhoeddus y Cyngor, felly os nad oes nodyn i'w weld, dylech wirio os yw'n faes parcio'r Cyngor. *Yng Nghaernarfon, ni fydd maes parcio Ffordd y Felin yn rhan o'r cynllun, felly bydd trefniadau talu arferol y maes parcio annibynnol yma'n parhau.

Os ydych yn parcio mewn maes parcio sy'n eiddo i gorff arall, dylech wirio'r trefniadau yn ofalus cyn parcio gan ei bod yn bosib na fydd parcio am ddim ar gael yno.

Amlinell WEN y moelni maith!


Yn hŷn mae'r cewri heno, - gwyllt eu gwedd

A'u gwallt gwyn yn chwifio;

Henaint sy'n haenen yno

O frig i frig hyd y fro.

Tony Elliott, Deiniolen



Cystadleuaeth Hen Luniau 2020 Menter Fachwen

Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen

Ydi – mae hi'r amser yna o'r flwyddyn unwaith eto. Mae 12 o luniau i chi eleni (i gyd wedi eu rhifo) a'r cyfan sydd rhaid i chi ei wneud yw dweud wrthom eu hunion leoliadau. Mae pob un o'r lluniau wedi eu tynnu o fewn dalgylch papur bro Eco'r Wyddfa.

Mae gwobr o £20 i'r enillydd i'w wario yn siop Menter Fachwen yn Llanberis. Danfonwch eich atebion i mi drwy e-bostio garethroberts754@yahoo.co.uk erbyn 31 Rhagfyr. Mae modd hefyd mynd at tudalen Facebook Menter Fachwen i'w gweld ac ateb. Pob lwc!



Cyrol newydd yr amgylcheddwr o Waunfawr

Tro ar Fyd



Un o'r materion pwysicaf y mae gwleidyddion a phawb yn gorfod ymgodymu ag ef y dyddiau hyn yw'r argyfwng Newid Hinsawdd. Mae rhaglenni radio a theledu ynghyd ag erthyglau yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at yr angen i roi sylw iddo. Mewn cyrol sydd newydd ei chyhoeddi gan Wasg Carreg Gwalch, mae'r awdur a'r amgylcheddwr Duncan Brown, Waunfawr yn trafod y

pwnc hwn y mae angen i bawb ohonom ei ystyried.

Mae Duncan Brown yn llais cyfarwydd ers blynyddoedd i wrandawyr radio fel un o arbenigwyr y rhaglen Galwad Cynnar ar Radio Cymru. Mae hefyd wedi ysgrifennu'n helaeth ar bynciau'n ymwneud â'i waith a'i ddiddordebau fel amgylcheddwr, naturiaethwr, casglwr a chofnodwr. Mae'n un o sylfaenwyr a chydolygyddion gwefan Llên Natur, y ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr o gofnodion am natur, Llên Gwerin, geirfa a thermâu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhwng 2006 a 2015, bu'n ysgrifennu colofn reolaidd i'r Cymro ar bynciau'n ymwneud â phob agwedd o'r byd o'n cwmpas. Ac yn y gyfrol Tro ar Fyd ceir detholiad o'r ysgrifau hynny, gydag ymateb cyfoes iddynt.

Bu'n ymhél â phopeth i'w wneud â'r amgylchedd drwy gydol ei fywyd, gan gymryd diddordeb arbennig yn Llên Gwerin Cymru. Roedd i'w weld dros yr haf ar gyfres boblogaidd S4C Natur a Ni, ac wrth gwrs mae'n un o selogion Galwad Cynnar

Ysgrifau ar Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd Duncan Brown

ers blynyddoedd bellach. Mae gwefan Llên Natur yn cynnwys y Tywyddiadur, sy'n cynnwys miloedd o gofnodion tywydd Cymru dros ganrif a mwy sy'n rhoi darlun o sut mae tywydd a hinsawdd Cymru wedi newid dros y blynyddoedd.

Roedd y penderfyniad i gasglu'r ysgrifau ynghyd i'w cyhoeddi yn un hawdd, yn ôl yr awdur. Medd, 'Mwynheais yn fawr yr her wreiddiol o lunio'r ysgrifau hyn yn rheolaidd yn Y Cymro. O droi atynt y llynedd, tybiais eu bod yn darllen fel rhyw fath o 'hunangofiant glöyn byw'. Y glöyn byw, yn fwy nag unrhyw greadur arall, sy'n ymddangos fel petai'n treulio ei fywyd ar hap a mympwy - glanio yn fan hyn, blasu a sawru, ac yna symud i fan arall heb fod ganddo'r syniad lleiaf pa gyfeiriad i'w gymryd nesaf. Dwi'n gobeithio bod y gyfrol hon yn adlewyrchu'n deg yr enaid aflonydd fu'n rhan o'm gwedd erioed - er gwell neu waeth.'

O ailymweld â'r colofnau gwreiddiol daeth yn amlwg fod rhai'n dal yn gyfoes, ond bu sawl newid yn amgylcheddol yn y cyfamser hefyd, fel yr eglura'r awdur. 'Daeth "Cyfnod yr Anthroposin" i'n geirfa o'r newydd. Sylweddolwyd ein bod yn boddli mewn plastigion sy'n ein lladd yn araf. Mae'r amrywiaeth o fywyd o'n cwmpas yn edwino o flaen ein llygaid. Nid cynhesu mae'r hinsawdd bellach ond poethi. Datganodd llywodraeth a chynghorau Cymru Stad o Argyfwng Amgylcheddol. Mae'r blaned mewn poen ac rydym yn teimlo'n gynyddol ddiymadferth yn wyneb pwerau'r fall. Dyddiau duon iawn o hyd, mae arna i ofn.'

Mae'r gyfrol unigryw hon yn torri tri newydd yn y Gymraeg; yn gofnod o newid, datblygiad a dirywiad o'n cwmpas, ac yn trafod y cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r gyfrol ar werth ar hyn o bryd; ei phris yw £9.



Bu chwareli'r fro yn ffon cynhaliath i genedlaethau. Oni bai amdany'n nhw byddai'r dyffryn yma a nifer o ddyffrynnoedd eraill yn llefydd tra gwahanol. Fyddai yna ddim hanner y boblogaeth. Fyddai yna chwaith ddim creithiau ar y llechweddau, dim ponc na thwll na sinc. Dim inclên, lein bach na thoman, a fawr o 'sŵn llechi'n crafu'r nos' fel y dywedodd y bardd Gwyn Thomas; a W J Gruffydd, un o'n beirdd ninnau, a soniodd am y tawelwch angheuol: 'segur fydd y cŵn a'r morthwyl mwy'.

Distawodd rhugl yr esgidiau hoelion fore a hwyr, does 'na ddim 'caniad' na rhuthro am y 'cwt mochall ffar', ac i'r gorffennol hefyd y perthyn y caban, y 'swper chwarel' a'r 'cyfri mawr'. 'Y bonc mor dawl â'r bedd' meddai'r Prifardd Tilsli, a'r waliau a'r siedia'n wag; a phrysurbdeb gwahanol sy'n y Gilfach Ddu.

Daeth gweithgarwch dynion a greodd y chwareli i ben, ond tydi hynny fawr o olygu nad oes eto ddigwyddiadau annisgwyl. Efallai'i bod hi'n ymddangos fod y chwareli wedi mynd i drwmgwsg. Ond eto yn sydyn fore lau'r 26ain o Dachwedd bu cynnwrf a daeth rwb mawr i lawr ym mhen ucha' Chwarel Vivian. Ffilmiwyd y cyfan gan JohnJo Jones,

un o chwarelwyr yr Amgueddfa, ac mae i'w gweld ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n ffilm drawiadol - sŵn pell i ddechrau a hwnnw'n chwyddo, y clogwyn yn agor a channoedd o dunelli o'r llechfaen yn syrthio i'r llyn islaw a chymylau o lwch yn codi i'r entychion. Yna fel mae'r cyfan yn gostegu a dim ond sŵn crawen ne ddwy i ymyrryd â'r tawelwch wedi'r cynnwrf, dyna gwyp arall, o bosib un mwy na'r un cyntaf nes roedd y chwarel i gyd wedi ei chuddio o dan niwlen drwchus o lwch.

Efallai'r aiff y chwarel hon fel y gweddill yn ôl i drwmgwsg gaeafol eto, efallai ddim. 'Does dim dwywaith nad ydi'r chwareli yma'n llefydd ansicr, twyllodrus a pheryglus; tydi'r ffaith eu bod yn ymddangos yn dawl a digyffro ddim yn golygu na all rhywbeth arall ddigwydd eto, yma yn Chwarel Vivian neu'n rhywle arall. Perthynas ansicr sydd yna rhwng y clogwyni llechen a disgyrchiant a'r tro nesa gallai'r canlyniadau fod yn llawer gwaeth. Mae'r hen chwareli yma wedi dwyn digon o fywydau yn barod, peidiwch â gadael iddyn nhw fynd â chwaneg.

Dei Tomos

Myfyrwyr yn dweud wrth Brifysgol Bangor: 'Peidiwch â thanseilio un o'n sefydliadau cenedlaethol!'

Mae cyn-fyfyrwyr Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor wedi anfon llythyr agored at y Brifysgol yn eu hannog i beidio â bwrw ymlaen â chynlluniau a fyddai'n 'tanseilio a dinistrio' enw da Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor.

Mae'r cyn-fyfyrwyr yn honni y byddai'r rownd ddiweddaraf o doriadau ym Mhrifysgol Bangor, a fyddai'n golygu bod y Brifysgol yn cael gwared â dau aelod o staff addysgu yn Ysgol y Gymraeg, yn glastwreiddio adran sydd 'ag iddi fri yn genedlaethol.'

Mae'r llythyr, a lofnodwyd gan dros gant o gyn-fyfyrwyr yn nodi: 'Mae'r cynigion yn tanseilio enw da Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor, yn ogystal â gwanhau'r Ysgol a'i gallu i ddarparu'r addysg gynhwysfawr ac unigryw y mae'n adnabyddus amdani.'

Mae'r llythyr yn honni 'bod Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor yn un o'n sefydliadau cenedlaethol, fel y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, a bod gan y Brifysgol ddyletswydd foesol i'w gwarchod. Mae'r Brifysgol yn bwriadu cael gwared â swyddi llawn amser ym maes Llenyddiaeth Fodern a Chyfoes, a Llenyddiaeth Ganoloesol. Mae cael gwared â'r swyddi hyn yn gwanhau un o ddarpariaethau arbenigol Ysgol y Gymraeg, ac yn niweidio'r statws cenedlaethol uchel sy'n perthyn i'r Ysgol.'

Ymhlith y sawl a lofnododd y llythyr mae Cefin Roberts, Cyfarwyddwr Cerd Ysgol Glanaethwy ym Mangor, Aled ap Dafydd, cyn-newyddiadurwr gyda'r BBC, Meinir Gwilym, y gantores, ac Ifor ap



Glyn, cyn-fardd Plant Cymru a Chymrawd yn y Brifysgol.

Yn ôl un o raddedigion diweddar yr Ysgol: 'Ar hyn o bryd, mae methiant ar ran Prifysgol Bangor i hyrwyddo bwrllwm bywyd Cymraeg ehangach y Brifysgol yn llwyddiannus. Mae'n ddyletswydd ar Adran Farchnata Prifysgol Bangor i fynd i'r afael â'r methiannau hyn er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Ysgol, yn ogystal ag i hyrwyddo bywyd Cymraeg y Brifysgol fel ased economaidd. Mae ar y Brifysgol angen strategaeth hysbysebu gynhwysfawr tymor hir sy'n sefydlu Bangor fel y Brifysgol Gymraeg de facto yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n methu â gwneud hynny.'

Meddai hefyd: 'Dyma'r drydedd rownd o ddiswyddiadau mewn tair blynedd, ac mae cael Is-ganghellor a Chadeirydd Cyngor Cymraeg eu hiaith sy'n methu â gwarchod buddiannau'r Gymraeg yn wyneb y toriadau hynny'n siom enfawr. Mae diffyg gweledigaeth hirdymor difrifol wrth wraidd y penderfyniad hwn. Galwn ar y Brifysgol i bwylllo, ac ail-ystyried.'

Colofn Llên Natur

Duncan Brown

Y Mis Hwn Mewn Hanes: Dwy ddamwain: 1806 a 1932

Wrth fodio dro'n ôl trwy bapurau Mary Vaughan Jones (Mary Parry gynt, Plas Glanrafon, Waunfawr ac athrawes Bywydeg o annwyl goffadwriaeth cyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail) dyma daro ar yr hanesyn hwn wedi ei gofnodi rhywdro ganddi:

“Ar ddiwrnod Nadolig 1806 dymchwelwyd y cwch fferi yn cludo'r Post Gwyddelig dros geg yr afon Gonwy, gan ymchwydd anarferol yn y llanw. Lladdwyd chwech allan o'r 8 teithiwr oedd ar ei bwrdd”.

Erbyn 1822, yn rhannol oherwydd peryglon aber y Gonwy, roedd y gwaith o godi'r bont grog (yr hen bont erbyn hyn) dros yr afon wedi ei gychwyn ac fe agorwyd campwaith Telford gyda chryn falchder ar 1af o Orffennaf 1826. Nododd Mary i ryw ymwelydd yn ddiweddarach resynu eu bod 'nhw' wedi codi'r castell mor agos i'r bont! Ydi, mae cronoleg yn bwysig wrth geisio deall hanes!

A dyma'r ail ddamwain; hanesyn arall wedi ei godi yn ei grynsyth o 'Canrif y Chwarelwr' gan Emyr Jones (gynt o'r Waunfawr) trwy law Gareth Pritchard (gynt o Lanrug). Mae cofnodion Tywyddiadur Llên Natur yn nodi mai gwynt oer iawn o'r dwyrain a chwythai ar draws y Gogledd yn ystod wythnos y ddamwain.

DAMWAIN JOHN JONES BRYN FFYNNON, CEUNANT.... digwyddodd damwain drychinebus arall yn y bonc agosaf i Bonc y Muriau, sef yn Sinc Hafod Owen....Dydd Mercher, Rhagfyr 7, 1932, ydoedd, ac yn fore oer iawn. Yr oedd John Jones, Bryn Ffynnon, Ceunant ac Evan Aneurin Williams, Llanberis, bron gorffen codi bonau, a'r fargen yn lân a thaclus ganddynt; ond 'roedd darn bychan o glogwyn yn y gongl bellaf yn rhwystr iddynt i fynd â'r tap mesur i'r pen draw. Tyllwyd "twll-torri-cefn" ynddo a'i saethu ganiad naw, ond ni wnaeth hynny ddim ond ei

bleru yn ei le. Penderfynwyd cynnig twll arall i ganlyn y 'sglont' a'i saethu un ar ddeg.

Erbyn chwarter i un ar ddeg 'roedd Evan Aneurin wedi gorffen tyllu a galwodd ar John Jones i dynnu'r beipen aer yn nes ato fel y gallai chwythu'r llwch allan a glanhau'r twll yn barod i'w bowdro. Cydiodd John Jones yn y beipen a dechreuodd ei thynnu, a'i gefn at y fargen. Yr oedd ei flwch baco a'i bibell yn ei law ac yntau'n hwylio i gael mygyn cyn mynd ati i bowdro'r twll. Yn hollol ddirybudd clywyd clec uwchben, a'r foment nesaf daeth yr holl le i lawr gan gladdu'r ddau o dan dunelli lawer o rwbel bras. Ychydig lathenni i ffwrdd gweithiai William John, mab John Jones. Yr oedd newydd adael ei dad, wedi cael benthyg cŷn brashollt ganddo i drin carreg â 'throed pres' arni, a bu ond y dim iddo yntau gael ei ddal yn y cwymp.

Cyn i'r llwch glirio yr oedd pob chwarelwr yn y bonc wedi cyrraedd y fan ac yn turio fel dynion gwallgof ymysg y plygion, er iddynt wybod o'r gorau nad oedd unrhyw obaith i ddod o hyd i'r trueiniaid yn fyw. Nid oedd digon o le i bawb weithio ar unwaith a rhanwyd y dynion yn finteioedd i weithio yn eu tro. Brysiodd eraill i nol craen trithroed i godi'r plygion trymaf. Daethpwyd o hyd i weddillion John Jones tua dau o'r gloch y prynhawn. Daeth y nos, ond daliodd y dynion ati i weithio yr un mor egniol yng ngolau lamp drydan a osodwyd ar blyg gerllaw. Yr oedd yn chwech o'r gloch yr hwyr pan gafwyd yr hyn a oedd yn weddill o Evan Aneurin Williams.

Cwis Chwaraeon 2020



1. Pwy enillodd Uwch Gyngghair Cymru am y tro cyntaf yn ei hanes eleni?
2. Daeth Wayne Warren o'r Rhondda yn bencampwr byd yn mis Ionawr. Ond yma mha gamp?
3. Pwy wnaeth ddod yn bencampwr Bocsis Uwch-drwm y byd ar ôl curo Deontay Wilder yn mis Chwefror?
4. Pwy enillodd Superbowl 54 pêl-droed Americanaidd eleni?
5. Beth oedd enw'r ceffyl a enillodd cwpan aur Cheltenham yn mis Mawrth?
6. Cipiodd Lewis Hamilton bencampwriaeth y byd Fformiwlâ 1 unwaith eto eleni, gan ddod yn gyfartal â record yr Almaenwr, Michael Schumacher. Faint o bencampwriaethau byd mae'r ddau wedi ei ennill?
7. Torwyd record Richie McCaw o Seland Newydd am y nifer o gapiau rhyngwladol rygbi drwy'r byd gan Gymro. Ond pwy oedd y Cymro?
8. Pwy yw'r Gymraes sydd yn chwarae i dîm merched Chelsea a sydd a gôl ar restr fer goliau gorau FIFA Puskas eleni?
9. Pa ddigwyddiad chwaraeon enwog sydd yn cael ei gynnal yn Lerpwl a gafodd ei ganslo?
10. Pwy enillodd Gyngghair y Pencampwyr gan guro PSG yn y ffeinal?
11. Enillodd Cymru Cwpan Dartiau'r Byd y PDC am y tro cyntaf eleni. Ond beth oedd enw'r ddau ddartiwr?
12. Pwy enillodd Super League rygbi'r gyngghair?
13. Enillodd Wayne Hennessey ei gap rhif 93 yn yr hydref gan ddod y golwr gyda mwyaf o gapiau dros Gymru. Ond pwy oedd y golwr oedd yn dal y record cyn hyn?
14. Pwy enillodd y Meistri Golff yn Augusta?
15. Enillodd Lerpwl Uwch Gyngghair Lloegr ond beth oedd enw'r Cymro a oedd yn y garfan?
16. Cafodd Gemau Olympaidd 2020 eu gohirio tan y flwyddyn nesaf ond yn mha ddinas fyddan nhw'n cael eu cynnal?
17. Pwy yw'r Cymro sydd wedi serennu ym mhencampwriaeth rali'r byd WRC eleni?
18. Enillodd Tadej Pogacar y Tour de France gan fod y cyntaf o'i wlad i ennill y ras enwog. Pa wlad yw honno?
19. Pwy yw'r boliwr o Loegr a gipiodd ei pum-canfed wiced yn erbyn India Gorllewin (West Indies) drost yr haf?
20. Enillodd Ronnie O'Sullivan Bencampwriaeth Snwncer y Byd eto eleni ond faint o weithiau mae'r Roced wedi ennill y teitl?

Mae'r Atebion i'w gweld ar Dudalen 4.



Wel, dan ni wedi cyrraedd diwedd y flwyddyn o'r diwedd! Mae'n saff dweud fod y flwyddyn yma wedi bod yn un tu hwnt i'r cyffredin. Wrth i ni ffarwelio gyda'r flwyddyn mae nawr yn gyfle gwych i edrych yn ôl ar y flwyddyn (fer) o bêl-droed.

Ar lefel lleol, does dim llawer wedi bod yn digwydd yn anffodus wrth i'r tymor ddod i ben ym mis Mawrth. Mae rhai timau wedi dechrau chwarae gêmâu cyfeillgar erbyn hyn, ond does dal dim sôn eto pryd bydd cefnogwyr yn cael dychwelyd.

Fe ail gychwynodd rhai Cyngbreiriau fel Uwchgynghrair Cymru (Cymru Leagues) a Uwchgynghrair Lloegr ym mis Mehefin, felly o leia mae cefnogwyr pêl-droed wedi cael ychydig o'u 'dose' o bêl-droed dros y misoedd diwethaf, ond roedd y cynnod hebddo yn teimlo fel oes! Yn ogystal, fe wnaeth Cymru ddychwelyd ym mis Medi ond rhyfedd iawn oedd peidio bod yng Nghaerdydd yn eu cefnogi!

Felly, er mwyn edrych yn ôl ar y flwyddyn, rwyf wedi penderfynu gosod gwobrwyau. Mae'n rhaid i mi gyfaddef roedd hi'n llawer haws dewis enillyd rhai categorïau nag eraill, ond gyda chymorth fy nhad Dylan a fy mrawd Elgan, mae'r tri ohonom yn gwobrwyo fel hyn:-

1. Chwaraewr y Flwyddyn - Robert Lewandowski. Fe serenodd Lewandowski i Bayern Munich y flwyddyn yma ac roedd yn rhan allweddol iawn o lwyddiant Bayern Munich. Enillodd wobwr Chwaraewr y Flwyddyn UEFA ar gyfer tymor 2019/20 ac mae hefyd wedi ei enwebu ar gyfer Chwaraewr Gorau y Flwyddyn FIFA. Doedd dewis y wobwr yma ddim yn dasg anodd!

2. Chwaraewraig y Flwyddyn - Sophie Ingle. Mae Sophie Ingle wedi cael blwyddyn dda gyda Chelsea gan ennill y Women's Super League a'r League Cup ac roedd hi'n rhan annatod yng nghanol y cae. Fe wnaeth hefyd ennill ei 100fed cap i Gymru, a hithau ond y trydydd person i gyrraedd y carreg filltir yna i Gymru!

3. Tîm y Flwyddyn - Bayern Munich. Heb os nac oni bai, doedd dim ond un dewis i'r wobwr yma. Mis Awst fe enillon nhw y Champions League am y chweched tro yn eu hanes a'r Bundesliga am y 30ain tro gan ennill wyth gefn wrth gefn! Yn wir, maent wedi bod yn amhosib eu dal ac wedi profi y flwyddyn yma eu bod yn un o gewri'r byd.

4. Rheolwr y Flwyddyn - Marcelo Bielsa. Mae Bielsa wedi ei gynnwys ar restr fer Rheolwr y Flwyddyn FIFA. Fe lwyddodd Bielsa i arwain Leeds yn ôl i Uwchgynghrair Lloegr am y tro cyntaf ers 2004.

5. Gôl Geidwad y Flwyddyn - Manuel Neuer. Bayern Munich yn cipio gwobr arall! Yn debyg i Lewandowski, mae Neuer wedi bod yn rhan bwysig o lwyddiant Bayern Munich eleni. Ar ôl brwydro gyda anafiadau fe ddaeth Neuer yn ôl flwyddyn yma yn gryfach nag erioed.

6. Transfer y Flwyddyn - Gareth Bale yn mynd i Spurs ar fenthg. Er nad yw'r transfer yma'n barhaol does dim gwadu ei fod wedi ei groesawu gan nifer. Doedd Gareth Bale ddim yn cael digon o gyfle yn Real Madrid ac yn cael ei wastraffu ar y fainc, felly mae hyn yn symudiad gwych iddo o bersbectif Cymru!

7. Gôl y Flwyddyn - Sophie Ingle. Yn gwneud ei hail-ymddangosiad ar y rhestr mae Sophie Ingle yn gwbl haeddiannol o'r wobwr yma eleni. Mae gôl Ingle i Chelsea yn erbyn Arsenal mis Ionawr yn un gwerth ei gweld, gyda'r bêl yn cael ei chwipio i gornel top y gôl o du allan i'r cwrw cosbi. Mae'r gôl hefyd wedi ei enwebu ar gyfer gwobr Puskás FIFA 2020.

8. Cit Gorau - Nigeria - Cartref. Mae Nigeria wastad yn dod yn agos i'r brig pan mae'n dod i'w crysau pêl-droed.

9. Cit Gwaethaf - Manchester City - Trydydd Cit. Mae hwn yn un o'r crysau gwaethaf dwi erioed wedi ei weld i fod yn hollol onest. Oes unrhyw un wedi ei brynu?

10. Siom y Flwyddyn - Y tymor yn dod i ben. Yn sicr, roedd dod a'r tymor pêl-droed i ben cyn ei amser yn siom aruthrol eleni. Yn anffodus bu'n rhaid i'r cyngbreiriau gwaelod ddod i ben ac nid oedd modd chwarae at ddiwedd y tymor.

11. Sioc y Flwyddyn - Rob McElhenney a Ryan Reynolds yn prynu clwb pêl-droed Wrecsam. Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn anghyffredin iawn ond mi ddaeth y newyddion yma fel sioc i bawb! Dau o sêr Hollywood yn berchen ar un o glybiau hynaf Cymru - pwy fyddai wedi gweld hynny'n dod?

12. Dathliad Gorau - Jonny Williams. Fe wnaeth Jonny Williams gipio'r fuddugoliaeth yn erbyn Bulgaria mis Hydref gyda'i gôl gyntaf i Gymru. Dwi'n siŵr fod ei wên i'w weld o'r lleuad! Yn sicr, roedd hi'n foment i'w chofio iddo ac mae'n siom nad oedd y cefnogwyr yno i ddathlu hefyd.

13. Dyfarnwr Gwaethaf - Nick Pratt. Rydym wedi gweld y flwyddyn yma mai prin iawn yw penderfyniad cywir gan y dyn yma!

14. Cwynwr y Flwyddyn - Jurgen Klopp. Does dim byd nad yw Jurgen Klopp wedi cwyno amdano y flwyddyn yma. O VAR (gweld dim bai arno yn cwyno am hynny i ddweud y gwir) i gemau'n cael eu chwarae amser cinio dydd Sadwrn, mae Klopp yn llawn haeddiannol o'r wobwr yma.

15. Medal Aur Deifio - Mohamed Salah. Mae'n amhosib cyfrif sawl gwaith mae Salah wedi taflu ei hun yn y gobaith o dderbyn cic o'r smotyn neu gic rhydd. Does dim ond angen anadlu yn ei gyfeiriad ac mae hynny'n ddigon i'w weld yn disgyn i'r llawr.

Dyna ni felly, gwobrau pêl-droed 2020. Mi fuaswn wedi hoffi rhoi nifer ohonynt i fwy nag un ond roedd rhaid dewis a dwi'n siŵr bydd rhai dewisiadau yn ddadleuol!

Gobeithio yn wir y bydd 2021 yn flwyddyn gwell ac edrychaf ymlaen at fynd i wylïo pêl-droed byw unwaith eto (gobeithio!)

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

ChwaraeonECO



Rwy'n teimlo fel Siôn Corn y 'Dolig yma, gan fy mod wedi cael 'helpwyr' i lunio'r golofn – wel teulu o helpwyr o'r Waunfawr i fod yn gywir. Mae'r prif erthygl yn waith Marek Rhys Jones a dyfeiswyr y cwis yw ei thad Dylan a'i brawd Elgan. Diolch iddynt, ac edrychwn ymlaen at gyfraniadau Marek – ac efallai yn achlysurol – Dylan ac Elgan i'r dyfodol. Mae Marek hefyd yn un o dîm 'Ar y Marc' bellach a'i chyfraniadau yn dangos ei dehongli trylwyr.

Adios Diego

Ie, Maradona druan wedi ei ddanfôn – VAR neu beidio – at y Dyfarnwr Mawr. Dyn â 'Llaw Duw'. Dyn â'r ddawn ryfeddol o reoli pêl, a gelyn pob cefnogwr Lloegr. Llenwyd colofnau fyrrdd i'w gofio. Ai ef oedd y gorau erioed? Pele, Best, Messi, Ronaldo – dewiswch chwi. Yn sicr, os enillodd un dyn Gwpan y Byd i'w wlad drwy'i ymdrech bersonol, yna Maradona oedd hwnnw. Nid oedd yr Arianin yn ffefrynau o bell ffordd ond dan arweiniad y 'dewin bach' cyrhaeddwyd y Copa. Mae'n ymddangos fod Maradona wedi cyfaddef un tro mai cof am ladrad Ynysoedd y Malvinas oedd yn ei yrru ymlaen. Fe'i cofir hefyd am agweddau oddi ar y cae yn enwedig ei ddefnydd o gyffuriau a chysylltiadau honedig gyda'r Mafia.

Un cyd-ddigwyddiad oedd fod Maradona wedi marw ar yr un dyddiad â George Best. Efallai fod George eisiau trefnu gêm-bêl-droed yn cynnwys y sêr ymysg y sêr ar ei ben-blwydd. Pwy fuasai yn creu a phwy fuasai yn gorffen y symudiadau tybed? A fuasai eisiau dwy bêl ar y cae? Roedd y ddau yn gallu driblo – crefft sydd yn prysur ddiflannu o'r gêm bellach.

Dyma fi'n meddwl beth yw'r enghraifft orau welais i ar gae chwarae o rywun yn rheoli'r bêl ac yna'n taro'r targed. I ateb fy nghwestiwn, nid ar gae pêl-droed y bûm yn dyst, ond ar gae rygbi a hwnnw yn un trwm a gwlyb. Fy newis i – cais anhygoel Gareth Edwards yn erbyn yr Alban yn ôl yn yr wyth-degau. Codi'r bêl i fyny wrth fôn y sgrym oedd yn cael ei wthio'n ôl, cicio dros y linell gyntaf o amddiffynwyr, ac yna gwibio heibio. Â'r bêl yn dilyn ei chwrs ei hun, Gareth yn cicio ymlaen gyda'i droed chwith – ei droed wanaf. Yn rhyfeddol, y bêl yn aros ar wyneb y tir ac yn dilyn cwrs lathen tu draw i'r lliman cornel. Gareth yn curo dau amddiffynnwr i sgorio'r cais a glanio ar ei wyneb yng nghlai coch y trac rasio milgwns, oedd yn amgylchynu y stadiwm y dyddiau hynny. Ai Maradona oedd y gorau yn ei gamp? Wn i ddim, ond rwy'n sicr mai Gareth oedd chwaraewr mwyaf blaenllaw y bêl hir-gron.

Siawns Pnawn Sadwrn?

A welwn i gêmiau lleol yn y dyfodol agos i'n denu ni allan o'r tŷ ar bnawn Sadwrn? Mae Prif Adran Cymru – a bellach yr haen oddi tanynt yn y gogledd a'r de yn cael bwrw iddi o'r diwedd. A fydd tyrfa yn cael gwyllo, wn i ddim. Mae criw selog yn gwyllo'r Bala o'r strimyn coed tu draw i'r gôl isaf. Siawns

gen i y gallai y 30 bondigrybwyll wasgaru tu draw i'r 2m yn eu masgiau i wyllo gêmiau lleol. Amser a ddengys, ond prysured y dydd. Rwy'n dechrau laru ar berfformiadau simsan ein tîm rygbi cenedlaethol ar bnawn Sadwrn. I'm a cefnogwr pêl-droed, - GET ME OUT OF HERE!

